

Ymateb i'r ymgyngoriad ar reoleiddio proffesiwn newydd – cymdeithion nyrsio

Hydref 2018

Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cefndir	4
Crynodeb gweithredol	6
Y <i>Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio</i>	8
Cwestiynau am y <i>Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio</i>	8
Y lefel o wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen	8
A yw'r safonau yn briodol ar gyfer rôl gyffredinol?	14
A yw'r safonau yn gwneud y gwahaniaethau rhwng nyrsys a chymdeithion nyrsys yn glir?	15
Camu ymlaen i nyrsio	16
Cwestiynau am yr atodiadau i'r <i>Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio</i> ..	17
Trosolwg o'r ymatebion.....	17
Atodiad B: Sgiliau trin craidd.....	19
Y Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio	23
Yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid.....	23
Yr ymgynghoriad i'r cyhoedd.....	24
Ein hymateb	25
Addysg a hyfforddiant	26
Cwestiynau am y <i>Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth</i>	26
Cwestiynau ynglŷn â'r <i>Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr</i>	28
<i>Safonau ar gyfer addysg cymdeithion nyrsio cyn cofrestru</i>	31
Gwerthoedd a rhinweddau personol cymdeithion nyrsio.....	31
Cydnabod dysgu blaenorol	32
Y rhaniad rhwng theori ac ymarfer	35
Profiadau dysgu	38

Amser dysgu wedi'i neilltuo wrth ymarfer	41
Lefel y cymhwysiad	44
Oriau Rhaglenni	45
Sylwadau cyffredinol	46
Ymuno â'n cofrestr	48
Ein hymateb	50
Ailddilysu	52
Yr ymgynghoriad i randdeiliaid	52
Yr ymgynghoriad i'r cyhoedd	53
Ein hymateb	54
Addasrwydd i ymarfer	55
Trosolwg o'r ymatebion	55
Ein hymateb	56
Sylwadau eraill ar reoleiddio cymdeithion nyrsio	57
Ein hymateb	57
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	58
Ein hymateb	58
Ein hymateb	60
Camau nesaf	60

Cyflwyniad

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheoleiddiwr gofal iechyd annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU ac ar gyfer cymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Rydym yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Rydym yn gwneud hyn drwy bennu safonau addysg, hyfforddiant, ymarfer ac ymddygiad, fel bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn gallu darparu gofal iechyd o ansawdd uchel drwy gydol eu gyrfaoedd.

Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys a bydwragedd sy'n bodloni'r safonau hyn, ac mae gennym brosesau clir a thryloyw er mwyn ymchwilio i nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn llwyddo i gyflawni ein safonau. O 2019, bydd cymdeithion nyrsio hefyd yn gallu ymuno â'n cofrestr.

Nodir ein rôl, ein swyddogaethau a'n pwerau yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ('y Gorchymyn').

Cefndir

Nododd yr adolygiad 'The Shape of Caring' (Health Education England, 2015), fwlch sgiliau rhwng rolau'r gweithlu cynorthwywyr gofal iechyd nas rheoleiddir a'r gweithlu nyrsio cofrestredig. Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai proffesiwn gofal iechyd newydd yn cael ei greu yn Lloegr, o'r enw cymdeithion nyrsio. Nod cyflwyno'r rôl newydd hon oedd cau'r bwlch hwn, er mwyn atgyfnerthu adnoddau a sgiliau'r gweithlu nyrsio a gofalu, a helpu i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cleifion a'r cyhoedd sy'n newid.

Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth, aeth Health Education England (HEE) ati i ddatblygu rhaglen beilot ar y cyd â darparwyr addysg a chyflogwyr er mwyn hyfforddi 2,000 o gymdeithion nyrsio yn Lloegr i ddechrau. Dechreuodd y rhaglenni cymdeithion nyrsio cyntaf ym mis Ionawr 2017, ac rydym yn disgwyl y bydd y cymdeithion nyrsio cyntaf yn cymhwyso ar ddechrau 2019.

Penderfynodd y Llywodraeth fod angen rheoleiddio'r proffesiwn cymdeithion nyrsio yn statudol er mwyn diogelu'r cyhoedd. Ym mis Ionawr 2017, cytunodd ein Cyngor i gais yr Adran Iechyd mai ni fydd yn rheoleiddio cymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Rhwng 16 Hydref 2017 a 26 Hydref 2017, ymgynghorodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y newidiadau i'n deddfwriaeth i roi pwerau cyfreithiol i ni reoleiddio cymdeithion nyrsio. Cyhoeddodd [ymateb i'r ymgynghoriad](#) ym mis Ebrill 2018. Cymeradwyodd y Senedd y newidiadau angenrheidiol i'n deddfwriaeth ym mis Gorffennaf 2018, a dyna pryd y daethom yn rheoleiddiwr cymdeithion nyrsio yn ôl y gyfraith.

Rhwng 9 Ebrill 2018 a 2 Gorffennaf 2018 ymgynghorwyd ar y safonau a'r canllawiau arfaethedig a fyddai'n ein galluogi i reoleiddio cymdeithion nyrsio. Datblygwyd ein cynigion yng nghyd-destun ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gynigiodd y dylai'r dull o reoleiddio cymdeithion nyrsio fod yn debyg i'r hyn sy'n gymwys i nyrsys a bydwragedd yn fras. Nid ymgynghorwyd ar yr angen am y rôl, natur y rôl, p'un

a ddylai'r rôl gael ei rheoleiddio, newidiadau i'n deddfwriaeth na ffioedd cymdeithion nyrsio. Ymdriniwyd â'r cwestiynau hyn mewn ymgynghoriadau blaenorol.¹

Cwmpasodd yr ymgynghoriad y canlynol.

- *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio*
- Diwygiadau i'n Cod
- Addysg a hyfforddiant:
 - *Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth.*
 - *Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr.*
- *Y Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru newydd.*
- Gofynion rheoleiddio eraill sy'n ymwneud â chofrestru, ail-ddilysu ac addasrwydd i ymarfer.

Roedd yr ymgynghoriad ar gael mewn dwy fersiwn. Roedd un fersiwn wedi'i hanelu at weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid ac roedd y llall wedi'i hanelu at aelodau'r cyhoedd.

Atebodd cyfanswm o 1,149 o ymatebwyr rai o'r cwestiynau neu bob un ohonynt yn yr ymgynghoriad i weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid. Cawsom 16 o ymatebion ar wahân gan sefydliadau rhanddeiliaid. Cafwyd 120 o ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyhoedd.

Dadansoddodd Community Research, sy'n gwmni ymchwil annibynnol, yr ymatebion a gawsom a rhoddodd y data i ni baratoi'r adroddiad hwn.

Unigolion (80%) a gyflwynodd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i weithwyr proffesiynol/rhanddeiliaid. Cawsom 113 o ymatebion gan bobl a ddywedodd eu bod yn ymateb ar ran sefydliadau. Dangosodd yr ymatebion i'r cwestiwn 'Amdanoch chi' yn yr ymgynghoriad mai nyrsys cofrestredig (56%) yn y DU oedd yn cyfrif am y gyfran uchaf o'r ymatebion unigol, yna gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (24%) ac addysgwyr nyrsio a/neu gymdeithion nyrsio (28%). Cyflwynwyd y mwyafrif o'r ymatebion sefydliadol gan gyflogwyr nyrsys neu fydwagedd yn y GIG (51%) a darparwyr addysg (18%). Roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau wedi'u lleoli yn Lloegr (78%) ond ymatebodd 16% o'r sefydliadau a oedd yn gweithredu ledled y DU.

Dangosodd yr ymatebion i'r cwestiwn 'Amdanoch chi' fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unigol yn fenywod (83%), ac roedd 14% o'r ymatebwyr yn ddynion (dewisodd 3% o'r ymatebwyr beidio ag ateb). Y grŵp oedran mwyaf i ymateb oedd unigolion rhwng 45-54 oed (35%). Dywedodd 7% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn fod ganddynt anabledd. Nododd 87% o'r ymatebwyr eu bod yn perthyn i'r categori unrhyw ethnigrwydd gwyn. Roedd mathau eraill o ethnigrwydd yn cyfrif am 6% o'r ymatebwyr ond roedd 6% o'r ymatebwyr wedi dewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn. O ran cyfeiriadedd rhywiol, nododd 9% o'r ymatebwyr eu bod yn hoyw, yn lesbaidd neu'n ddeurywiol. Nododd y

¹ Gweler [Ymgynghoriad ar reoleiddio cymdeithion nyrsio yn Lloegr](#) yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'n [Hymyngghoriad ar ffioedd cofrestru cymdeithion nyrsio](#).

mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn Gristnogion (53%) neu nad oedd ganddynt grefydd (37%).

Nid oedd y fersiwn o'r ymgynghoriad a oedd wedi'i hanelu at y cyhoedd yn cynnwys cwestiynau demograffig. Fodd bynnag, o blith y 120 o bobl a ymatebodd, nododd 47 eu bod yn aelodau o'r cyhoedd, a dywedodd 44 eu bod yn nyrsys neu'n fydwagedd. Dywedodd y gweddill eu bod yn weithwyr proffesiynol ac yn fyfyrwyr.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau a chyfleoedd i ymgysylltu. Ymhlith y rhain roedd:

- dau weminar a sgwrs Twitter i roi cefndir yr ymgynghoriad ac ateb ymholiadau
- tri gweithdy ym Manceinion, Llundain a Birmingham gyda chyfuniad o weithwyr proffesiynol gofal iechyd, addysgwyr, cyflogwyr a chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant.
- dau ddigwyddiad i gleifion a'r cyhoedd ym Manceinion a Llundain
- un grŵp ffocws â rhieni plant bach ac un grŵp ffocws â phobl ifanc.
- deg cyfweiliad â phobl ag anableddau dysgu
- trafodaethau mewn gweithdai ar elfennau penodol o'r ymgynghoriad lle y bo angen, megis meddygfeydd a gwasanaethau plant.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a gymerodd ran yn ein digwyddiadau i randdeiliaid.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad, y prif themâu a godwyd mewn sylwadau gan ymatebwyr a'n hymateb i'r materion a godwyd. Rydym wedi adolygu'r holl sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad ac a godwyd yn ein digwyddiadau ymgysylltu. Wrth ddiweddarau'r safonau, rydym wedi cael cyngor a mewnbwn clinigol gan grŵp o arbenigwyr. Roedd y grŵp hwn wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r safonau drafft cyn yr ymgynghoriad. Mae'r safonau yn gyson â'r safonau newydd i nyrsys, a gyhoeddwyd gennym ym mis Mai 2018 ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddechrau.

Crynodeb gweithredol

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion a gyflwynwyd gennym yn yr ymgynghoriad.

Roedd tua phedwar o bob pum ymatebydd (82%) i'r ymgynghoriad i randdeiliaid yn credu bod y *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio* yn gosod y lefel briodol o wybodaeth a sgiliau i gymdeithion nyrsio ar adeg cofrestru.

Roedd 89% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad i randdeiliaid yn cytuno y gallai'r Cod wedi'i ddiweddarau fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio yn ogystal â'r proffesiynau eraill a

reoleiddir gennym. Roedd 83% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad i'r cyhoedd yn cytuno y dylai'r Cod fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio yn ogystal â nyrsys a bydwagedd.

Roedd tua naw o bob deg ymatebydd i'r ymgynghoriad i randdeiliaid yn cytuno y dylai'r *Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth* (91% o'r ymatebwyr yn cytuno) a'r *Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr* (90% o'r ymatebwyr yn cytuno) fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau am y *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru* yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid. Heblaw am un cwestiwn, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein cynigion drwy fwyaf oedd o rhwng 62% ac 80%.

Roedd y cwestiwn lle cawsom lai o gefnogaeth yn ymwneud â chydabod dysgu blaenorol nyrsys cofrestredig a oedd am ymuno â rhaglenni cymdeithion nyrsio. Roedd ychydig o dan hanner yr ymatebion (46%) yn cytuno â'n cynnig na ddylai fod terfyn. Ond, gan fod 28% o'r ymatebwyr yn anghytuno ac nad oedd 19% yn cytuno nac yn anghytuno, 'cytuno' oedd yr ateb mwyaf poblogaidd. Roedd rhywfaint o gamddealltwriaeth ynglŷn â sut y byddai nyrs gofrestredig yn dod yn gydymaith nyrsio. Rydym wedi ymdrin â'r rhain [isod](#) ac rydym wedi diweddarau'r safon mewn ymateb i bryderon a godwyd am nyrsys cofrestredig y mae eu hymarfer wedi'i gyfyngu.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ar ein gofynion rheoleiddio eraill. Roedd dros 90% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad i randdeiliaid o'r farn y dylai ein gofynion iaith Saesneg fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio yn yr un ffordd ag y maent yn gymwys i nyrsys a bydwagedd. Roedd y lefel cytuno yn amrywio rhwng 90 a 95% o ran cymhwysio pob un o'n pum gofyniad ail-ddilysu at gymdeithion nyrsio a theimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (69%) nad oedd unrhyw oblygiadau penodol i ymestyn ein dull o ymdrin ag addasrwydd i ymarfer i gymdeithion nyrsio.

Yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid gofynnwyd i bobl ystyried p'un a oedd y newidiadau arfaethedig wedi cael unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (76%) o'r farn y byddai effaith gadarnhaol neu na fyddai dim effaith ar y rhai sy'n rhannu'r nodweddion hyn.

Gan fod ein cynigion wedi cael cryn dipyn o gefnogaeth, teimlwn fod y dull gweithredu a fabwysiadwyd gennym yn briodol. Fodd bynnag, rydym wedi adolygu'r holl sylwadau ac awgrymiadau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad, a lle y bo'n briodol, rydym wedi diweddarau ein safonau i'w hymgorffori.

Yn bwysicaf oll, rydym wedi cynnwys opsiwn newydd ar gyfer diogelu dysgu myfyrwyr mewn ymarfer ar gyfer rhaglenni seiliedig ar waith yn y [Safonau rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru](#). Rydym wedi gwneud hyn er mwyn cydnabod y ffaith mai am y tro cyntaf rydym yn rheoleiddio proffesiwn y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymuno ag ef drwy lwybr seiliedig ar waith. Byddwn yn parhau i adolygu'r dull gweithredu hwn er mwyn i ni fod yn sicr nad oes unrhyw oblygiadau anfwriadol.

Rydym wedi rhoi rhagor o fanylion am y newidiadau a wnaed gennym yn yr adrannau perthnasol isod.

Y Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio

Mae'r safonau hyfedredd yn nodi'r hyn y dylai pob cydymaith nyrsio ei wybod a gallu ei wneud pan fydd yn ymuno â'r gofrestr. Yn debyg i broffesiynau eraill, gall cymdeithion nyrsio gaffael rhagor o wybodaeth a sgiliau gyda'r hyfforddiant a'r trefniadau llywodraethu clinigol priodol.

Bydd angen i sefydliadau addysg, a'u partneriaid lleoliadau ymarfer, sicrhau bod addysg a rhaglenni hyfforddiant cymdeithion nyrsio yn galluogi myfyrwyr i ddangos yr hyfedreddau hyn a chymhwyso'n gymdeithion nyrsio.

Bwriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw y bydd cymdeithion nyrsio yn helpu i roi gofal nyrsio mewn amrywiaeth eang o leoliadau a meysydd ymarfer iechyd a gofal. Rôl gyffredinol yw cydymaith nyrsio, sy'n rhychwantu'r meysydd nyrsio. Mae angen i'w haddysg roi dealltwriaeth a phrofiad o weithio gyda phlant ac oedolion iddynt, a hefyd brofiad o weithio gyda phobl ag anableddau a chyflyrau iechyd meddwl.

Gofynnodd yr ymgynghoriad saith cwestiwn ynghylch ein safonau hyfedredd drafft ar gyfer cymdeithion nyrsio (chwech yn yr ymgynghoriad i weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid ac un yn yr ymgynghoriad i'r cyhoedd). Cafodd y safonau hyn eu llunio i fod yn gyson â'r fersiwn ddiweddaraf o'r [Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig](#). Cawsant eu strwythuro o dan chwe phennawd, a oedd yn disgrifio priif elfennau'r rôl.

Gofynnodd yr ymgynghoriad i weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid bedwar cwestiwn am yr atodiadau i'r *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio* hefyd. Mae'r atodiadau hyn yn nodi'r gallu i gyfathrebu, y sgiliau a'r triniaethau y mae'n rhaid i gymdeithion nyrsio allu eu dangos ar adeg cofrestru.

Cwestiynau am y Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio

Y lefel o wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen

Ymatebion i'r ymgynghoriad i randdeiliaid

Gofynnodd yr ymgynghoriad i randdeiliaid dri chwestiwn am y lefel o wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen ar bob cydymaith nyrsio ar adeg cofrestru.

Cwestiwn 1:

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio* yn gosod lefel briodol o wybodaeth a sgiliau ar gyfer pob cydymaith nyrsio ar adeg cofrestru?

Cytunodd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr (82%) fod y *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio* yn gosod lefel briodol o wybodaeth a sgiliau i gymdeithion nyrsys. Dim ond 12% o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno. Nid oedd 6% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd unigolion yn llawer mwy tebygol o gytuno'n gryf (29%) na sefydliadau (16%). Ymhlith yr unigolion, roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn llawer mwy tebygol o gytuno'n gryf (42%) na nyrsys cofrestredig/bydwragedd (22%) ac addysgwyr (20%).

Rhoddodd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn reswm dros eu hateb.

Ar y cyfan, nododd y rhai a oedd yn cytuno â'r cwestiwn fod y safonau yn adlewyrchu'r hyn yr oedd ei hangen ar gyfer y rôl. Dywedwyd hefyd fod y safonau yn gwneud y gwahaniaeth rhwng y rôl cydymaith nyrsio a nyrs yn glir. Er enghraifft:

“Mae'r gwahaniaeth yn y safonau hyfedredd rhwng y Cydymaith Nyrsio a'r Nyrs Gofrestredig yn bodloni'r gofyniad a nodwyd ar y cychwyn gan yr NMC i gael diffiniad clir rhwng y ddwy rôl. Mae rôl y Cydymaith Nyrsio yn ddigonol i allu cau'r bwloch presennol mewn sgiliau rhwng cynorthwywyr gofal iechyd a nyrsys cofrestredig a nodwyd gan yr adolygiad “Shape of Caring” (HEE, 2015).” (Cyflogwr GIG)

Ar y cyfan, nododd y rhai a oedd anghytuno fod y safonau yn rhy agos i'r safonau ar gyfer nyrsys cofrestredig a bod y safonau yn rhy uchel neu'n rhy uchelgeisiol.

Codwyd nifer o faterion cyffredin hefyd, p'un a oedd yr ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno. Roedd y prif themâu yn ymwneud â'r canlynol:

- Asesiadau - teimlai rhai ymatebwyr y gallai cymdeithion nyrsio ymgymryd ag asesiadau ac roedd eraill am gael mwy o eglurhad ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan gydymaith nyrsio o ran asesu. Er enghraifft:

“Rydym yn cytuno ar y cyfan bod y lefel yn briodol. Fodd bynnag, rydym yn credu bod diffyg eglurder yn Llwyfan 3 ar lefel asesu cleifion. Mae'r ffordd y mae'r safonau wedi'u hysgrifennu ar hyn o bryd yn golygu nad yw bob amser yn hawdd deall pa lefel o asesu cleifion y disgwylir i gydymaith nyrsio ymgymryd â hi. Mae'r amwysedd hwn yn ymwneud ag aciwtedd a chymhlethdod claf a'r angen i uwchgyfeirio at nyrs gofrestrdig neu weithiwr proffesiynol cofrestredig arall.” (Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)

- Lefel cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol cymdeithion nyrsio - teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen mwy o eglurder. Er enghraifft:

“Rwy'n credu bod y lefel sgiliau yn briodol. Ond mae angen gwneud rhywbeth er mwyn sicrhau bod y gweithlu, gan gynnwys cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant, yn deall y ffiniau clir iawn. Yn fy mhrofiad i hyd yma, mae diffyg dealltwriaeth ar bob lefel.” (Nyrs gofrestrdig)

- Eglurder ynghylch termau fel 'dangos' 'monitro' a 'deall'.

Cafwyd llai o sylwadau bod y safonau yn canolbwyntio gormod ar ofal oedolion a/neu ofal aciwt.

“mae'r [sefydliad] yn credu gan mai rôl gyffredinol yw hon, y dylai fod mwy o gynnwys ar iechyd meddwl a sgiliau anabledau dysgu; yn enwedig ym maes gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ?persondod ac egwyddorion ymarfer yn y meysydd hyn.” (Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)

Ein hymateb

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cytuno bod y safonau yn pennu'r lefel briodol o wybodaeth a sgiliau ar gyfer cymdeithion nyrsio.

Roedd rhai ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn yn teimlo bod y safonau yn rhy agos i'r safonau ar gyfer nyrsys cofrestredig. Ond fel y dengys [yr ymateb i'r cwestiwn ar y mater hwn](#), nid barn y mwyafrif ydoedd.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch rôl y cydymaith nyrsio i asesu. Er eglurder, mae'r safonau hyfedredd yn cynnwys y sgiliau y bydd angen i gymdeithion nyrsio eu cyfrannu at asesu, megis monitro, gwerthuso a sgiliau asesu penodol. Mae'r *Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig* yn mynd ymhellach ac maent yn unol â'r angen i nyrsys feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer asesu sylfaenol. Nid yw ein hyfedreddau yn nodi'r rolau na'r tasgau y bydd cymdeithion nyrsio yn eu cyflawni neu'n peidio â'u cyflawni oherwydd nid hynny yw eu diben. Fodd bynnag, bydd arweiniad ar ddefnyddio cymdeithion nyrsio yn ddiogel gan sefydliadau eraill.

Teimlai rhai ymatebwyr fod y safonau yn canolbwyntio gormod ar ofal aciwt neu ofal oedolion. Er nad dyna'r bwriad, ac rydym yn teimlo bod y safonau yn briodol ar gyfer rôl gyffredinol, rydym wedi ychwanegu ychydig o eiriau er eglurder. Mewn rhai achosion, rydym wedi ymgorffori awgrymiadau ar sut y gellir gwneud y safonau yn fwy cyffredinol. Er enghraifft:

- Rydym wedi ychwanegu ychydig o eiriau at y cyflwyniad i'r safonau. Mae hyn yn cadarnhau bod cymdeithion nyrsio yn rhoi gofal i bobl o bob oedran, o gefndiroedd, diwylliannau a chredoau gwahanol, ac sydd ag anghenion gofal meddyliol, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol gwahanol.
- Rydym hefyd wedi nodi'n glir bod y datganiadau canlyniadau ar gyfer pob llwyfan wedi cael eu cynllunio i fod yn gymwys i bob lleoliad iechyd a gofal ac y dylai cymdeithion nyrsio allu dangos ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae gofynion yn amrywio rhwng gwahanol leoliadau iechyd a gofal.
- Rydym wedi diweddarau rhai meysydd yn Atodiad A (sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau) er mwyn cynnwys technegau cyfathrebu sy'n addas i'r oedran ac egluro y dylid gwneud addasiadau rhesymol i helpu dealltwriaeth wrth gyfathrebu.

Ar ôl ystyried yr holl sylwadau o'r ymgynghoriad yn ofalus, rydym wedi diweddarau rhai meysydd yn y Safonau hyfedredd. Rydym wedi gwella'r geiriad er mwyn rhoi mwy o eglurder drwy'r Safonau cyfan a chysoni â'r *Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig* terfynol (a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod ymgynghori ar gymdeithas nyrsio) lle y bo'n briodol.

Cwestiwn 2:

A oes unrhyw wybodaeth neu sgiliau pellach y byddech yn disgwyl i bob cydymaith nyrsio allu eu dangos ar adeg cofrestru?

Ym marn y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (55%), nid oedd unrhyw wybodaeth na sgiliau pellach i'w disgwyl gan gymdeithion nyrsio ar adeg cofrestru. Dywedodd 16% o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod. Gwnaeth tua un o bob tri ymatebydd (30%) awgrymiadau ynglŷn â meysydd pellach i'w cwmpasu.

Roedd sefydliadau (48%) yn fwy tebygol o ateb 'oes' i'r cwestiwn hwn nag unigolion (28%).

Roedd y lleiafrif o'r ymatebwyr a atebodd 'oes' ac a wnaeth sylwadau wedi gwneud nifer o awgrymiadau. Y meysydd a grybwyllwyd amlaf oedd:

- pigiadau mewngyhyrol
- sgiliau asesu sylfaenol, gan gynnwys sgiliau arsylwi
- sgiliau anghlinigol, er enghraifft, pendantrwydd, gwydnwch, cyfathrebu, arweinyddiaeth, a datrys anghydfodau.
- sgiliau sy'n ymwneud â meysydd ymarfer penodol, er enghraifft gweithio gyda phlant a phobl ifanc, pobl ag anabledau dysgu a'r rhai â chyflyrau iechyd meddwl.

Cyfeiriodd ymatebwyr at nifer o sgiliau eraill, yr oedd y mwyafrif ohonynt wedi'u cwmpasu mewn gwirionedd yn yr atodiadau i'r safonau hyfedredd. Ymdrinnir â'r rhain mewn cwestiynau [isod](#). Ymhlith y sgiliau penodol y cyfeiriwyd atynt roedd:

- gosod cathetr
- gosod arllwysiad mewnwtyhiennol/canwla
- rhoi meddyginiaethau
- arweinyddiaeth/mentora/sgiliau arwain tîm
- cynlluniau gofal
- gwythïen-bigo
- meddyginiaeth/bwydo â thiwb drwy'r trwyn i'r stumog

Ein hymateb

Gan fod cryn orgyffwrdd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn a chwestiwn 3, rydym wedi ystyried y ddau gwestiwn hyn gyda'i gilydd isod.

Cwestiwn 3:

A oes unrhyw wybodaeth neu sgiliau wedi'u cynnwys yn y Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio nad oes angen eu cynnwys, neu sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn rydych chi'n credu y dylid ei ddisgwyl gan bob cydymaith nyrsio ar adeg cofrestru?

Ym marn y rhan fwyaf o'r ymatebion (71%), nid oes unrhyw wybodaeth na sgiliau yn y safonau na ddylid eu cynnwys neu a aeth y tu hwnt i'r hyn y dylid ei ddisgwyl gan bob cydymaith nyrsio ar adeg cofrestru. Atebodd 12% o'r ymatebwyr 'ddim yn gwybod'. Teimlai rhai ymatebwyr (17%) fod meysydd na ddylid bod wedi'u cynnwys.

Roedd nyrsys cofrestredig neu fydwragedd (18%) yn fwy tebygol o ddweud bod gwybodaeth a sgiliau yn y safonau na ddylid eu cynnwys na chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (9%).

O blith y lleiafrif o ymatebwyr a deimlai na ddylid cynnwys rhai meysydd, ymhlith y meysydd penodol y cyfeiriwyd atynt yn y sylwadau roedd:

- rheoli meddyginiaeth/rhoi cyffuriau
- sgiliau penodol, megis gosod canwla, gwythïen-bigo ac i raddau llai, tiwbiau drwy'r trwyn i'r stumog, gosod cathetr, gwneud gwelyau a gofal diwedd oes.

Ein hymateb (i gwestiynau 3 a 4)

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon ar y wybodaeth a'r sgiliau a oedd wedi'u cynnwys yn y safonau hyfedredd ac nid oeddent yn teimlo y dylid cynnwys neu ddileu unrhyw sgiliau eraill.

Awgrymodd lleiafrif o'r ymatebwyr y dylid cynnwys sgiliau neu wybodaeth ychwanegol (30% o'r ymatebwyr i gwestiwn 3) neu y dylid dileu rhai meysydd (17% o'r ymatebwyr i gwestiwn 4). Bu gwahaniaeth barn ynglŷn â'r meysydd o wybodaeth y dylid eu cynnwys neu eu dileu, gyda sgiliau megis gosod canwla, rhoi meddyginiaethau a gwythïen-bigo yn ymddangos mewn ymateb i'r ddau gwestiwn. Fel y nodir uchod, mae llawer o'r sgiliau a grybwyllwyd yn berthnasol i'r atodiadau i'r safonau hyfedredd.

Wrth ystyried p'un a ddylid cynnwys neu ddileu meysydd o wybodaeth neu sgiliau, rydym wedi trafod y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad â grŵp o arbenigwyr clinigol ac addysgol ac wedi gofyn am eu cyngor a'u mewnbwn.

Cyfeiriodd rhai o'r sylwadau at sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau, megis sgiliau sy'n ymwneud â phendantrwydd a datrys anghydfodau. Rydym wedi ystyried y sylwadau hyn a, lle y bo'n briodol, wedi diweddarau Atodiad A. Er enghraifft, rydym wedi ychwanegu cyfeiriad at bendantrwydd pan fo angen ac wedi dileu'r cyfeiriad at strategaethau gwrthdaro.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid dileu gwythïen-bigo o'r safonau hyfedredd gan ei fod ar lefel rhy uchel neu am na fyddai ei angen ar gymdeithion nyrsio. Trafodwyd hyn gyda'r grŵp arbenigol a theimlai'r mwyafrif o'r grŵp hwnnw y dylai aros yn y safonau hyfedredd. Gan mai dim ond nifer fach o'r ymatebwyr a gododd hyn yn yr ymgynghoriad ac yn ein digwyddiadau ymgysylltu allanol, rydym wedi ei gadw yn ein safonau diwygiedig.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu dileu gosod canwla o'r safonau. Tynnodd mwy o ymatebwyr sylw at hyn fel problem mewn gwahanol rannau o'r ymgynghoriad. Ar ôl trafodaeth gyda'r grŵp arbenigol cytunwyd y dylid ei ddileu. Mae gosod canwla yn sgil fwy cymhleth na gwythïen-bigo ac mae'n golygu rhoi mwy o

hyfforddiant. Mynegwyd y farn hefyd na fyddai angen y sgil hon ar bob cydymaith nyrsio ac efallai na fyddai rhai yn cael cyfle i gadw eu cymhwysedd ar ôl cofrestru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na all cymdeithion nyrsio gael eu hyfforddi i osod canwla os oes angen y sgil hon yn eu lleoliad penodol.

Cafwyd rhai sylwadau ar y rhan o'r safonau sy'n ymwneud â rhoi meddyginiaethau, yn enwedig mewn perthynas â'r ffyrdd o roi pigiadau, lle teimlai rhai rhanddeiliaid y dylid cynnwys pigiadau mewngyhyrol a dileu pigiadau o dan y croen. Trafodwyd hyn gyda'r un grŵp arbenigol ac o ganlyniad rydym wedi diweddarau'r safonau i gynnwys pigiadau mewngyhyrol a dileu pigiadau o dan y croen. Rydym yn gobeithio y bydd cynnwys pigiadau mewngyhyrol hefyd yn helpu i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan rai am ffocws y safonau, oherwydd rhoddir gwerth mawr ar y sgiliau hyn mewn lleoliadau cymunedol, gan gynnwys ieuchy meddwl.

Ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyhoedd

Gofynnwyd cwestiwn penagored hefyd ynglŷn â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gymdeithion nyrsio yn y fersiwn o'r ymgynghoriad i'r cyhoedd:

Bydd disgwyl i gymdeithion nyrsio ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol a chefnogi pobl mewn amrywiaeth o leoliadau gofal. Pa sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen ar gymdeithion nyrsio, yn eich barn chi, i gyflwyno gofal o ansawdd uchel?

Cawsom 110 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ymatebodd 43 o bobl fel aelodau o'r cyhoedd, ac ymatebodd 58 o bobl fel gweithwyr proffesiynol neu fyfyrwyr.

Nododd yr ymatebwyr fod tosturi ac empathi a gwybodaeth feddygol neu glinigol yn allweddol i roi gofal o ansawdd uchel. Canolbwyntiodd y sylwadau ar yr angen i gymdeithion nyrsio wneud y canlynol:

- deall anatomi a ffisioleg
- dangos sgiliau arbenigol a bod yn broffesiynol ac yn alluog, gyda sgiliau cyfathrebu cadarn (gan gynnwys Saesneg), sgiliau cymdeithasol a sgiliau trefnu.
- gallu rhoi meddyginiaeth
- adnabod eu cyfyngiadau eu hunain a gwybod pryd i ofyn am help.

Ein hymateb

Rydym yn croesawu'r sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Rydym yn falch bod y meysydd o wybodaeth a sgiliau a nodwyd gan aelodau o'r cyhoedd, myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol wedi'u cynnwys yn y *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio*.

A yw'r safonau yn briodol ar gyfer rôl gyffredinol?

Gofynnodd yr ymgynghoriad i randdeiliaid:

Cwestiwn 4:

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio* yn briodol i rôl gyffredinol cydymaith nyrsio?

Cytunodd tri chwarter yr ymatebwyr (75%) fod y *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio* yn briodol i rôl gyffredinol cydymaith nyrsio. Roedd 12% o'r ymatebwyr yn anghytuno ac nid oedd 13% yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn fwy tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf (89%) na nyrsys cofrestredig neu fydwagedd (68%) neu addysgwyr (75%).

Ni roddodd llawer o'r ymatebwyr reswm dros eu hateb. Gwnaeth lleiafrif o'r ymatebwyr sylwadau fel a ganlyn:

- Nid oedd rhai o'r sgiliau yn berthnasol i bob maes ac felly byddai'n anodd i rai cymdeithion nyrsio gael eu hamlygu i sefyllfaoedd er mwyn cadw eu hyfedredd ar ôl cofrestru.
- Roedd y sgiliau'n canolbwyntio gormod ar ofal oedolion a/neu ofal aciwt ac ni roddwyd digon o sylw i ofal iechyd cymunedol, iechyd meddwl na phlant a phobl ifanc.
- Nid yw pob un o'r sgiliau yn berthnasol i bob maes. Felly, dylai fod cyfle i benderfynu ar rai agweddau ar sgiliau/hyfforddiant yn lleol yn hytrach na cheisio cwmpasu popeth mewn rôl gyffredinol. Er enghraifft:

“Cydnabyddir bod safonau cyffredinol yn briodol i hyfforddi cymdeithion nyrsio, ond ar ôl cymhwyso, efallai y bydd angen iddynt gael cymorth neu hyfforddiant ychwanegol pan fyddant yn cael eu cyflogi mewn lleoliad mwy arbenigol neu annibynnol.” (Llywodraeth neu gorff cyhoeddus)

Ein hymateb

Rydym yn croesawu'r ymateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn (cytunodd 75%) ac yn fodlon bod ein dull gweithredu presennol yn briodol i rôl gyffredinol. Rydym wedi cydnabod bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod y safonau yn canolbwyntio gormod ar ofal oedolion. Rydym wedi ymdrin â'r pryderon hyn yn ein hymatebion uchod.

Er eglurder, mae'r safonau hyfedredd yn nodi'r sgiliau y bydd gofyn i bob cydymaith nyrsio fod wedi'u dysgu ar adeg cofrestru. Rydym yn tynnu sylw at yr egwyddor hon mewn gwahanol rannau o'r safonau. Bydd cymdeithion nyrsio yn gallu datblygu sgiliau pellach mewn lleoliadau penodol. Efallai y bydd sefydliadau addysg cymeradwy a'u phartneriaid lleoliadau ymarfer yn penderfynu cynnwys elfennau ychwanegol yn eu rhaglen, os ydynt am i'w cymdeithion nyrsio ddysgu sgiliau ychwanegol mewn meysydd penodol. Yn olaf, gall ein dull o ailddilysu ddarparu ar gyfer sefyllfa lle y gall pobl ar ein

cofrestr, wrth iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd, symud i ffwrdd oddi wrth gwmpas eu hymarfer cychwynnol.

A yw'r safonau yn gwneud y gwahaniaethau rhwng nyrsys a chymdeithion nyrsys yn glir?

Gofynnwyd un cwestiwn ar hyn yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid a gweithwyr proffesiynol.

Cwestiwn 5:

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio yn gwahaniaethu rhwng yr wybodaeth a'r sgiliau a ddisgwylir gan gydymaith nyrsio a'r hyn a ddisgwylir gan nyrs ar adeg cofrestru?*

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (70%) fod y *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio* yn gwahaniaethu rhwng y wybodaeth a'r sgiliau a ddisgwylir gan gydymaith nyrsio o gymharu â nyrs. Roedd 17% o'r ymatebwyr yn anghytuno ac nid oedd 14% yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn fwy tebygol o gytuno (80%) na nyrsys cofrestredig/bydwragedd (66%).

Dywedodd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn rhoi safbwyntiau eu bod yn gallu nodi gwahaniaethau amlwg rhwng y ddwy set o safonau. Er enghraifft:

"Mae hyn yn gwahaniaethu'n glir rhwng lefel gofyniad cydymaith nyrsio a nyrs gofrestredig. Mae'r atodiad ar sgiliau ynddo yn benodol yn gwahaniaethu'n amlwg" (Cyflogwr GIG).

O blith y mwyafrif o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn ac yna wedi gwneud sylwadau, roedd y themâu yn y sylwadau wedi cynnwys y canlynol:

- Ychydig o bryder cyffredinol ynglŷn â'r diffyg gwahaniaethu rhwng y ddwy rôl yn eu barn nhw.
- Yr angen i gael gwahaniaeth cliriach yn rôl nyrsys cofrestredig a rôl cymdeithion nyrsio o ran asesu. Teimlai rhai o'r ymatebwyr hyn mai'r nyrs gofrestredig ddylai fod yn gyfrifol am asesu bob amser. Awgrymodd eraill y byddai angen i gymdeithion nyrsio, yn ymarferol, ymgymryd â rhyw lefel o asesu er mwyn cyflawni eu rôl. Er enghraifft:

"Mae angen cyfeirio mwy at rôl y cydymaith nyrsio o ran asesu. Mae angen i gymdeithion nyrsio allu gweithredu yn ôl yr hyn a fwriadwyd pan gyflwynwyd y cynlluniau ar gyfer y rôl; os nad oes eglurder ynglŷn â'r rôl o ran asesu, y perygl yw y byddant ond yn gallu gweithredu fel [gweithwyr cymorth gofal iechyd] ac ni chaiff budd llawn yr hyfforddiant a'r addysg ei wireddu." (Sefydliad dienw)

"Y gwahaniaeth amlwg rhwng yr hyn y disgwylir i'r nyrs gofrestredig ei wneud, o'i chymharu â'r cydymaith nyrsio yw bod y nyrs yn asesu'r claf, yn gwneud diagnosis nyrsio ac yn datblygu cynllun gofal, ond yn yr atodiad ar

*sgiliau cymdeithion nyrsio cyfeirir o hyd at gymdeithion nyrsio yn asesu.”
(Nyrs gofrestrdig)*

Ein hymateb

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y mwyafrif o'r ymatebwyr (70%) yn teimlo bod y gwahaniaeth rhwng y rolau yn glir yn y Safonau hyfedredd. Rydym bob amser wedi bod yn glir y bydd rhywfaint o orgyffwrdd, yn union fel y mae gorgyffwrdd rhwng nyrsys ac aelodau eraill o dimau amlddisgyblaethol.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynglŷn ag asesu. Fel y dywedwyd [uchod](#) mae ein safonau yn ei gwneud yn ofynnol i gymdeithion nyrsio feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i gyfrannu at asesu ar adeg cofrestru, ond mae ein safonau nyrsio yn cynnwys disgwyliad y gall nyrsys, ar adeg cofrestru, ymgymryd â chyfrifoldeb cyffredinol am asesu ac am y cynlluniau gofal canlyniadol. Rydym yn gobeithio y bydd y newidiadau a wnaed gennym i'r safonau yn rhoi mwy o eglurder ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng nyrsys a chymdeithion nyrsio.

Camu ymlaen i nyrsio

Cwestiwn 6:

Gofynnwyd i ni sicrhau bod rhaglenni cymdeithion nyrsio yn gallu cynnig llwybr datblygu ar gyfer graddau nyrsio. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio*, wrth eu hystyried gyda'r *Safonau hyfedredd newydd ar gyfer nyrsys cofrestredig*, yn helpu addysgwyr i ddiffinio'r gofynion ychwanegol er mwyn sicrhau bod rhaglenni yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gamu ymlaen i raglenni nyrsio ar lefel gradd?

Cytunodd 74% o'r holl ymatebwyr y byddai'r safonau yn helpu addysgwyr i ddiffinio gofynion ychwanegol rhaglenni i fyfyrwyr gamu ymlaen i raglenni nyrsio ar lefel gradd. Roedd 11% o'r ymatebwyr yn anghytuno ac nid oedd 15% yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd mwy o gytundeb ymhlith addysgwyr (84%) a chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (88%) nag ymhlith nyrsys cofrestredig/bydwagedd (69%).

Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol ar y cyfan gan y rhai a oedd yn cytuno â'r cwestiwn ac wedi gwneud sylwadau. Dywedwyd eu bod yn gweld gwahaniaeth rhwng y safonau ar gyfer cymdeithion nyrsio a nyrsys cofrestredig a bod y llwybr tuag at ddod yn nyrs gofrestrdig yn glir.

Cyfeiriodd y lleiafrif o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn yn bennaf at yr angen am wahaniaeth cliriach rhwng rôl cydymaith nyrsio a rôl nyrs gofrestrdig.

Roedd themâu ychwanegol a godwyd mewn sylwadau gan y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno yn cynnwys y canlynol:

- Cwestiynau am y gallu a'r amser sydd eu hangen i gamu ymlaen o fod yn gydymaith nyrsio i fod yn nyrs gofrestrdig mewn maes arbenigol
- Yr angen i sicrhau cysondeb mewn safonau addysgol

- Cwestiynau ynghylch p'un a allai cymdeithion nyrsio ddefnyddio eu sgiliau presennol yn ystod astudiaethau pellach i ddod yn nyrs gofrestrdig a sut.

Ein hymateb

Rydym yn fodlon bod yr ymateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn yn dangos bod y *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio*, ynghyd â'r *Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig*, yn helpu addysgwyr i ddiffinio'r gofynion ychwanegol ar gyfer rhaglenni a fydd yn ei gwneud yn bosibl i gamu ymlaen i nyrsio lefel gradd.

Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o wybodaeth am gamu ymlaen i nyrsio, yr amser a gymerai a ph'un a fyddent yn gallu defnyddio eu sgiliau fel cydymaith nyrsio. Rydym yn ymdrin â'r materion hyn yn fanylach yn yr adran sy'n ymwneud â [Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru](#).

Pan fydd cydymaith nyrsio am ymuno â rhaglen nyrsio cyn cofrestru, byddai gofynion cydnabod dysgu blaenorol yn gymwys. Golyga hyn y bydd angen i sefydliadau addysg cymeradwy ystyried faint o ddysgu blaenorol ymgeisydd fel cydymaith nyrsio a all gyfrif tuag at y rhaglen nyrsio cyn cofrestru, hyd at uchafswm o 50% o'r rhaglen.

Cwestiynau am yr atodiadau i'r *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio*

Mae'r atodiadau i'r *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio* yn nodi'r sgiliau cyfathrebu a'r triniaethau y mae'n rhaid i gymdeithion nyrsio allu eu dangos ar adeg cofrestru. Gan fod rôl cymdeithion nyrsio yn un gyffredinol, rydym wedi drafftio atodiadau er mwyn galluogi cymdeithion nyrsio i ddangos sgiliau y gellir eu cymhwyso mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd a gofal ac at ofal ar gyfer pobl sydd ag anghenion gwahanol. Nid oes angen dangos y sgiliau hyn ym mhob lleoliad nac ar bob cam o'r cylch oes.

Mae Atodiad A yn amlinellu'r sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau sydd eu hangen ar gymdeithion nyrsio. Mae Atodiad B yn amlinellu'r sgiliau trin sydd eu hangen. Gofynnodd yr ymgynghoriad i randdeiliaid am safbwyntiau ar y ddau atodiad hyn.

Trosolwg o'r ymatebion

Atodiad A: Sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau craidd

Gofynnwyd dau gwestiwn am sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid. Roedd rhai meysydd yn gorgyffwrdd, felly mae ein hymateb isod yn ymdrin â'r ddau gwestiwn hyn.

Cwestiwn 1:

A oes unrhyw sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau craidd eraill y byddech chi'n eu disgwyl gan bob cydymaith nyrsio ar adeg cofrestru?

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (74%) nad oedd angen unrhyw sgiliau cyfathrebu na sgiliau rheoli cydberthnasau eraill y dylid eu cynnwys yn Atodiad A. Teimlai 18% o'r ymatebwyr bod sgiliau eraill y gellid eu cynnwys ac atebodd 8% 'ddim yn gwybod'.

Roedd sefydliadau (38%) yn fwy tebygol o deimlo bod angen sgiliau eraill nag unigolion (14%). Roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn llai tebygol o deimlo y dylid cynnwys rhagor o sgiliau na nyrsys cofrestredig (5%) neu fydwragedd (19%).

Ar y cyfan, roedd sylwadau gan y lleiafrif o'r ymatebwyr a deimlai y dylid cynnwys sgiliau eraill yn ymwneud â'r canlynol:

- Cyfathrebu â chleifion sydd ag anghenion ychwanegol neu wahanol. Er enghraifft, cyfathrebu â phobl sydd â nam gwybyddol neu nam ar y clyw neu'r lleferydd ac â phobl o bob oedran a chefnidir amrywiol.
- Gweithio a chyfathrebu mewn timau a chyda chydweithwyr. Er enghraifft, gweithio'n effeithiol gyda nyrsys cofrestredig, gan gynnwys uwchgyfeirio materion, arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a mentora a gweithio o fewn tîm amlddisgyblaethol.
- Sgiliau uwch, gan gynnwys ymdrin â sgysiau neu sefyllfaoedd anodd.
- Y defnydd o TG a chyfryngau digidol, er enghraifft, gan gynnwys cofnodion gofal electronig a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

Cwestiwn 2:

A oes unrhyw sgiliau cyfathrebu neu reoli cydberthnasau wedi'u cynnwys yn Atodiad A nad oes angen eu cynnwys, neu sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn rydych chi'n credu y dylid ei ddisgwyl gan bob cydymaith nyrsio ar adeg cofrestru?

Nid oedd y mwyafrif llethol (83%) o'r ymatebwyr yn teimlo bod unrhyw sgiliau cyfathrebu neu reoli cydberthnasau y dylid eu dileu yn Atodiad A. Dim ond 6% o'r ymatebwyr a deimlai fod angen dileu sgiliau. Atebodd 11% 'ddim yn gwybod'.

Dim ond cyfran fach o'r ymatebwyr a aeth yn eu blaen i wneud sylwadau. Roedd rhai o'r rhain yn adlewyrchu safbwyntiau ar rôl cymdeithion nyrsio yn gyffredinol a oedd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad. Roedd prif thema'r sylwadau yn ymwneud â goruchwyllo a dirprwyo, gyda rhai ymatebwyr yn dweud eu bod yn drysu ynghylch pwy fyddai cymdeithion nyrsio yn ei oruchwyllo neu i bwy y byddent yn dirprwyo tasgau.

Ein hymateb (i gwestiynau 1 a 2)

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau a gynhwyswyd yn Atodiad A yn briodol (gyda 74% o'r ymatebwyr i gwestiwn 1 yn dweud nad oedd unrhyw sgiliau eraill y byddent yn eu cynnwys ac 83% o'r ymatebwyr i gwestiwn 2 yn dweud nad oeddent yn teimlo y dylem ddileu unrhyw sgiliau).

Cododd ymatebwyr rai materion ynglŷn ag Atodiad A wrth ymateb i gwestiynau cynharach. Rydym wedi ystyried y sylwadau hyn [uchod](#). Lle y bo'n briodol, rydym wedi'u hymgorffori yn y safonau diwygiedig. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau a wnaed i ymgorffori cyfeiriadau at dechnegau cyfathrebu sy'n addas i'r oedran, a dileu'r cyfeiriadau at strategaethau gwrthdaro.

Parhaodd lleiafrif o'r rhanddeiliaid i godi cwestiynau am oruchwylio a dirprwyo. Dyma un rhan o'r ymgynghoriad lle codwyd materion o'r fath. Gallwn gadarnhau y bydd cymdeithion nyrsio yn gallu dirprwyo a goruchwylio aelodau eraill o staff. Mae'r Safonau hyfedredd yn rhoi enghreifftiau o'r bobl y dylai cymdeithion nyrsio allu eu goruchwylio ar adeg cofrestru (Llwyfan 4: Gweithio mewn timau. 4.7), sef cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant, gweithwyr cymorth gofal iechyd a'r rhai sy'n newydd i rolau gofal. Mae'r llwyfan hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth am ddirprwyo, gan nodi bod yn rhaid i gymdeithion nyrsio allu "*adnabod lle y gellir dirprwyo elfennau o ofal i gydweithwyr eraill, gofawyr ac aelodau o'r teulu*".

Mae'r Cod hefyd yn rhoi gwybodaeth am atebolrwydd a dirprwyo ac rydym wedi paratoi ychydig o ddeunydd ychwanegol ar hyn sydd ar gael ar ein [gwefan](#).

Atodiad B: Sgiliau trin craidd

Cwestiwn 3:

A oes unrhyw sgiliau trin craidd eraill y byddech chi'n eu disgwyl gan bob cydymaith nyrsio ar adeg cofrestru?

Dyweddodd dau o bob tri (67%) o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw sgiliau trin craidd eraill y dylem eu cynnwys yn Atodiad B. Roedd 23% o'r ymatebwyr o'r farn bod sgiliau eraill y dylem eu cynnwys ac atebodd 10% 'ddim yn gwybod'.

Roedd sefydliadau (42%) yn fwy tebygol nag unigolion (20%) i ddisgwyl bod sgiliau trin eraill yn cael eu cynnwys. Roedd addysgwyr (80%) yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn disgwyl unrhyw sgiliau eraill na chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (63%).

Y sgiliau a grybwyllwyd amlaf roedd ymatebwyr o'r farn y dylem eu cynnwys oedd:

- Pigiadau mewngyhyrol. Nododd rhai ymatebwyr fod hyn yn bwysig iawn ym maes iechyd meddwl a lleoliadau meddygfeydd. Dywedodd eraill, heb y sgiliau hyn, na fyddai cymdeithion nyrsio yn gallu cyflawni rhai swyddogaethau pwysig. Er enghraifft,

"Mae absenoldeb y gofyniad i'r cydymaith nyrsio ddysgu sut i roi meddyginiaeth drwy bigiad mewngyhyrol yn golygu na fyddant yn gallu bodloni'r gofynion yn y safonau sy'n ymwneud â diogelu iechyd. Er enghraifft, ni fyddant yn gallu chwarae rôl weithredol mewn rhaglenni imiwneiddio cenedlaethol, gan gynnwys y rhai ar gyfer ffliw a brechlynnau niwmococol. Mae Atodiad B adran 1.i yn nodi y bydd cymdeithion nyrsio yn adnabod ac yn cymryd camau ar unwaith mewn argyfyngau meddygol, gan gynnwys anaffylacsis. Gan mai pigiad mewngyhyrol o adrenalin yw'r cam ar unwaith mewn achos o anaffylacsis (Llywodraeth neu gorff cyhoeddus)

- Gosod cathetr. Er bod Atodiad B yn cyfeirio'n benodol at osod cathetr, crybwyllwyd hyn mewn nifer o ymatebion. Ychydig o'r ymatebwyr hyn a roddodd fanylion ynglŷn â'r wybodaeth bellach roeddent yn ei disgwyl.

- Therapi mewnwythiennol. Codwyd rhai pryderon mai cyfyngedig fyddai rôl cymdeithion nyrsio pe na allent roi therapi mewnwythiennol.

Argymhellodd nifer lai o ymatebwyr y dylem gynnwys sgiliau eraill, sef:

- sgiliau sy'n ymwneud â thiwbiau drwy'r trwyn i'r stumog;
- gweinyddu meddyginiaethau
- gwythïen-bigo/cymryd samplau o waed/fflebotomi
- gosod canwla (ond dywedodd nifer sylweddol uwch o'r ymatebwyr na ddylem gynnwys hyn mewn ymateb i gwestiwn 4 isod).
- gwerthuso neu asesu parhaus
- hybu iechyd
- sgiliau sy'n briodol i faes ymarfer y cydymaith nyrsio.

Cwestiwn 4:

A oes unrhyw sgiliau trin craidd wedi'u cynnwys yn Atodiad B nad oes angen eu cynnwys, neu sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn rydych chi'n credu y dylid ei ddisgwyl gan bob cydymaith nyrsio ar adeg cofrestru?

Teimlai 70% o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw sgiliau trin craidd y dylid eu dileu o Atodiad B. Roedd 20% o'r ymatebwyr o'r farn y dylid dileu rhai sgiliau ac atebodd 10% o'r ymatebwyr 'ddim yn gwybod'.

Roedd sefydliadau (30%) yn fwy tebygol o ddweud na ddylid cynnwys rhai o'r sgiliau trin nag unigolion (19%). Roedd nyrsys cofrestredig/bydwagedd (24%) ac addysgwyr (25%) yn fwy tebygol o ddweud na ddylid cynnwys rhai o'r sgiliau na chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (7%).

Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau ac awgrymiadau ynglŷn â'r hyn y gallem ei ddileu o'r Atodiad. Roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau hyn yn ymwneud â sgiliau clinigol. Roedd eraill yn ymwneud â chwmpas ymarfer, ffocws yr arweiniad neu ba mor eglur oedd y termau.

Y prif sgiliau clinigol penodol roedd ymatebwyr yn credu y dylem eu dileu oedd:

- gosod canwla
- gwythïen-bigo
- rhoi meddyginiaeth
- gwneud gwely
- samplu gwaed
- pigladau

- ECG
- gofal stoma
- arsylwadau niwrolegol
- gosod cathetr/hunanosod cathetr
- bwydo allanol.

Gwnaeth ymatebwyr eraill sylwadau ynglŷn â'r set sgiliau fwy cyffredinol yn Atodiad B. Roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- lefel y sgil sydd ei hangen ar adeg cofrestru (gyda rhai yn teimlo nad oedd angen rhai o'r sgiliau ar adeg cofrestru, neu y gellid eu datblygu ar ôl cofrestru).
- gorgyffwrdd â rôl nyrsys cofrestredig
- cadw cymhwysedd mewn sgiliau y gall cymdeithion nyrsio gael eu hamlygu iddynt yn anaml yn unig
- safbwyntiau bod y sgiliau a restrir yn canolbwyntio gormod ar oedolion neu leoliadau aciwt
- y farn bod y rhestr o sgiliau yn rhy ragnodol
- gofyn am eglurder ynglŷn â thriniaethau penodol.

Ein hymateb (i gwestiynau 3 a 4)

Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw sgiliau trin craidd eraill y dylid eu cynnwys (67% o'r ymatebwyr) y dylid eu dileu (70% o'r ymatebwyr) o Atodiad B i'r safonau.

Unwaith eto, ymddangosodd nifer o sgiliau, megis gosod canwla, gwythïen-bigo a gosod cathetr fel sgiliau roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylid eu cynnwys yn y safonau ac roedd eraill yn credu na ddylid eu cynnwys.

Ar ôl ystyried y sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriad a'r mewnbwn gan y grŵp arbenigol clinigol ac addysgol, rydym wedi:

- diweddarau'r safonau i gynnwys pigladau mewngyhyrol a dileu pigladau o dan y croen.
- cadw gwythïen-bigo yn Atodiad B gan mai dim ond nifer fach o'r ymatebwyr a fynegodd bryderon penodol amdano.
- dileu gosod canwla, gan fod mwy o ymatebwyr wedi tynnu sylw at hyn fel problem ac oherwydd y cymhlethdod a'r amser a gymerai i hyfforddi rhywun i osod canwla. Mynegwyd y farn hefyd na fyddai angen y sgil hon gan bob cydymaith nyrsio.

- dileu gofal stoma gan fod nifer resymol o ymatebwyr wedi'i godi fel mater rhy benodol nad oedd yn briodol ar gyfer rôl gyffredinol.

Rydym wedi rhoi rhagor o wybodaeth am ein rhesymau dros rai o'r penderfyniadau hyn [uchod](#).

Y Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio

Mae ein Cod yn amlinellu'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid i bobl ar ein cofrestr eu cynnal er mwyn ymarfer yn y DU. Fe'i cyhoeddwyd yn 2015, ac mae nyrsys a bydwagedd yn gyfarwydd iawn ag ef ac yn ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol.

Yn yr ymgynghoriad, cynigiwyd y dylid diweddarau'r Cod i gynnwys cymdeithion nyrsio, ond ni chynigiwyd unrhyw newidiadau sylfaenol i'r safonau a nodir yn y Cod. Darparwyd fersiwn wedi'i diweddarau yn yr ymgynghoriad. Roedd hon yn cynnwys cyflwyniad newydd a nifer fach o newidiadau er mwyn sicrhau bod y geiriad yn addas at reoleiddio pob un o'r tri phroffesiwn a reoleiddir gennym bellach.

Gofynnwyd dau gwestiwn am y Cod yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid a gweithwyr proffesiynol ac un cwestiwn yn yr ymgynghoriad i'r cyhoedd. Rydym wedi rhoi trosolwg o'r ymatebion i bob un o'r cwestiynau hyn isod ac yna ein hymateb ar y Cod.

Yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid

Cwestiwn 1:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno fod y cyflwyniad diwygiedig yn esbonio sut gall y Cod fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio yn ogystal â'r proffesiynau eraill a reoleiddir gennym?

Cytunodd mwyafrif llethol o'r ymatebwyr (89%) fod y cyflwyniad diwygiedig yn esbonio sut y gall y Cod fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio. Dim ond 5% o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno a 6% nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd sefydliadau (98%) yn fwy tebygol o gytuno nag unigolion (87%) ond roedd cryn dipyn o gytundeb. Roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant unigol (97%) yn fwy tebygol o gytuno na nyrsys cofrestredig a bydwagedd (85%).

Dim ond nifer gymharol fach o'r ymatebwyr (39 allan o 505) a roddodd sylwadau. O blith y rhai a oedd yn cytuno â'r cwestiwn, un o'r prif themâu oedd y dylai'r Cod fod yn gymwys yn yr un modd i bob proffesiwn ar y gofrestr:

"Rydym yn cytuno mai dim ond un Cod ddylai reoleiddio'r tri phroffesiwn. Dylai cymdeithion nyrsio a nyrsys cofrestredig gael eu rheoleiddio gan yr un ddeddfwriaeth, er bod teitlau'r proffesiynau yn wahanol." (Sefydliad elusennol/sector gwirfoddol)

O blith y rhai a oedd yn anghytuno, roedd rhai yn galw am fwy o eglurder rhwng rôl cymdeithion nyrsio a rôl nyrsys cofrestredig. Cafodd y thema hon ei hategu hefyd mewn rhai o'r ymatebion gan y rhai a gytunodd â'r cwestiwn.

Cafwyd sylwadau hefyd ynglŷn ag atebolrwydd a dirprwyo gan y rhai a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion. Teimlai nifer o'r ymatebwyr nad oedd digon o eglurder na dealltwriaeth o'r hyn yr oedd yn ei olygu na sut y dylid ei gymhwyso.

“Rwy’n credu o hyd nad yw nyrsys cofrestredig wir yn deall atebolrwydd heb sôn am y rôl newydd hon.” (Ymatebydd dienw).

“Heb linellau atebolrwydd penodol, mae perygl o amryfusedd rhwng cleifion a staff, ac effaith negyddol ar ddiogelwch cleifion.” (Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)

Cwestiwn 2:

A oes unrhyw safonau o fewn y Cod yr ystyriwch na ddylai fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio?

Dywedodd 90% o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw safonau yn y Cod a oedd yn amhriodol ar gyfer cymdeithion nyrsio. Dim ond 5% o'r ymatebwyr a fynegodd y farn bod safonau yn y Cod na ddylent fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio. Dywedodd 6%² o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod.

Rhoddodd cyfran fach o'r ymatebwyr sylwadau i esbonio eu hateb. Y thema fwyaf cyffredin yn y sylwadau oedd cefnogaeth gyffredinol o blaid cymhwyso'r Cod at gymdeithion nyrsio. Fel gyda'r ymatebion i'r cwestiwn uchod, galwyd am fwy o eglurder ynglŷn â rolau ac atebolrwydd.

Mewn rhai sylwadau awgrymwyd newidiadau neu esboniadau mwy penodol o ran iaith. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ynglŷn â sgiliau rheoli cydberthnasau a sgiliau trin penodol roeddent yn teimlo nad oeddent yn briodol i gymdeithion nyrsio.

Yr ymgynghoriad i'r cyhoedd

Roedd yr ymgynghoriad i'r cyhoedd yn cynnwys y cwestiwn canlynol ar y Cod:

A ydych o'r farn bod y Cod sy'n gymwys ar hyn o bryd i nyrsys cofrestredig a bydwagedd hefyd fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio pan fyddant yn ymuno â'n cofrestr?

Roedd 83% o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r Cod fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio a dywedodd 14% na ddylai'r Cod fod yn gymwys. Atebodd 3% o'r ymatebwyr 'ddim yn gwybod'. Roedd myfyrwyr neu weithwyr proffesiynol yn fwy tebygol o gytuno â'r cwestiwn nag aelodau o'r cyhoedd, ond roedd cryn gytundeb (84% ac 81% yn y drefn honno).

Rhoddodd nifer o'r ymatebwyr resymau dros eu hateb. Dywedodd y rhai a gytunodd â'r cwestiwn fod cymdeithion nyrsio yn rhan o'r tîm nyrsio a bod cymhwyso'r un Cod yn cydnabod hyn.

Roedd y lleiafrif o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn ac yn rhoi sylwadau o'r farn y dylai fod gwahaniaeth rhwng statws proffesiynol nyrsys cofrestredig a chymdeithion nyrsio. Byddai hyn yn adlewyrchu'r gofynion hyfforddiant gwahanol a'r lefelau cyflog gwahanol.

² Yma mae'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 101% Gellir priodoli hyn i dalgrynnu.

Ein hymateb

Cafwyd cefnogaeth gref yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid (cytunodd 89% o'r ymatebwyr) a'r ymgynghoriad i'r cyhoedd (cytunodd 83% o'r ymatebwyr) i'r cynnig y dylai'r Cod fod yn gymwys i bob un o'r proffesiynau a reoleiddir gennym.

Rydym yn disgwyl yr un ymddygiad proffesiynol gan nyrsys a bydwagedd a dyna pam mae un Cod ar hyn o bryd. Rydym yn credu bod un Cod yn helpu cleifion a'r cyhoedd i fod yn hyderus bod yr un safonau ymddygiad uchel yn gymwys i bawb ar ein cofrestr. Mae'n arfer cyffredin i reoleiddwyr gymhwyso'r un Cod at y proffesiynau a reoleiddir ganddynt. O ystyried y gefnogaeth sylweddol i'r cynnig hwn bwriadwn barhau â'r dull gweithredu hwn.

Nodwyd yn glir gennym yn yr ymgynghoriad y bydd nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn cadw at y Cod o fewn terfynau eu cymhwysedd. Yn debyg i nyrsys a bydwagedd, bydd gan gymdeithion nyrsio eu safonau hyfedredd unigryw eu hunain, sy'n nodi'r wybodaeth a'r sgiliau penodol sydd eu hangen i ymuno â'r gofrestr.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynglŷn â rolau, atebolrwydd a dirprwyo. Rydym wedi paratoi ychydig o ddeunydd ychwanegol ar hyn sydd ar gael ar ein [gwefan](#). Wrth ddiweddarau'r Cod ar ôl yr ymgynghoriad, rydym wedi ystyried yr awgrymiadau mwy penodol a gyflwynwyd gan ymatebwyr ac wedi rhoi mwy o eglurder mewn sawl maes. Er enghraifft, rydym wedi rhoi mwy o esboniad am bwysigrwydd gweithwyr proffesiynol yn gweithio o fewn terfynau eu cymhwysedd.

Addysg a hyfforddiant

Cwestiynau am y *Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth*

Mae'r *Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth* yn cynnwys safonau sy'n gymwys i bob sefydliad addysg sy'n darparu rhaglenni a gymeradwywyd gan yr NMC a'u partneriaid dysgu ymarfer. Mae'n cwmpasu'r canlynol:

- Diwylliant dysgu
- Llywodraethu addysgol ac ansawdd
- Grymuso myfyrwyr
- Addysgwyr ac aseswyr
- Cwricwla ac asesu

Yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid a gweithwyr proffesiynol cynigiwyd y dylid cymhwyso'r fframwaith safonau at ddarparwyr rhaglenni cymdeithion nyrsio.

Cwestiwn 1:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r *Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth* hefyd fod yn gymwys i ddarparwyr rhaglenni cymdeithion nyrsio?

Cytunodd 91% o'r ymatebwyr â'r cynnig i gymhwyso'r fframwaith safonau at raglenni cymdeithion nyrsio. Roedd 5% yn anghytuno, ac nid oedd 4% yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (95%) yn fwy tebygol o gytuno na nyrsys cofrestredig/bydwragedd (89%).

Roedd y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig ac wedi rhoi sylwadau o'r farn ei bod yn briodol cymhwyso safonau cyffredin at raglenni nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio a chael cysondeb rhwng proffesiynau. Dywedwyd ei bod yn bwysig ar gyfer datblygiad gyrfa cymdeithion nyrsio. Dywedodd rhai y dylai ddarparwyr rhaglenni cymdeithion nyrsio hefyd allu cynnig rhaglenni gradd nyrsio.

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at statws ychwanegol neu amser dysgu wedi'i neilltuo. Rydym yn ymdrin â hyn [isod](#).

O blith y lleiafrif o'r unigolion a oedd yn anghytuno â'r cynnigion, dywedodd rhai eu bod yn anghytuno â'r cynnig y dylai cymdeithion nyrsio fod yn fentoriaid, yn aseswyr a/neu'n oruchwylwyr. Gofynnwyd a fyddai cymdeithion nyrsio yn cael digon o hyfforddiant i gyflawni'r rolau hyn. Dywedodd rhai ymatebwyr fod rôl cymdeithion nyrsio yn hollol wahanol i rôl nyrs neu fydwaig (neu y dylai fod yn wahanol) ac felly dylai safonau gwahanol fod yn gymwys.

Mynegodd nifer fach iawn o ymatebwyr bryderon ynglŷn â gorgyffwrdd, yn eu tyb nhw, rhwng rolau cymdeithion nyrsio a nyrsys cofrestredig. Cyfrannodd y cynnig i gymhwyso'r un safonau addysg at y pryder hwn.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurder ar nifer o bwyntiau:

- Y berthynas rhwng ein safonau a gofynion prentisiaethau
- Y math o sefydliadau sy'n gymwys i ddod yn sefydliadau addysg cymeradwy at ddibenion darparu rhaglenni cymdeithion nyrsio.

Ein hymateb

Rydym yn croesawu'r ffaith bod dros 90% o'r ymatebwyr yn cytuno â chymhwyso'r fframwaith safonau at raglenni cymdeithion nyrsio. Rydym wedi diweddarau'r fframwaith safonau fel y gellir ei gymhwyso at raglenni cymdeithion nyrsio.

Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn pryderu am gymhwyso'r un safonau at nyrsys a chymdeithion nyrsio. Fodd bynnag, mae'r fframwaith safonau wedi'i ddylunio i fod yn gymwys i bob sefydliad addysg cymeradwy. Felly mae'n gymwys eisoes i broffesiynau gwahanol (nyrsys cofrestredig a bydwagedd), gwahanol fathau o raglenni (cyn cofrestru yn ogystal ag ôl-gofrestru) ac i fodelau dysgu gwahanol, gan gynnwys prentisiaethau.

Mae'r fframwaith safonau yn ymdrin â materion megis diwylliant dysgu a llywodraethu addysgol rhaglenni ac mae'r [Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru](#) yn nodi'r gofynion penodol ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio. Mae'r un dull gweithredu yn gymwys i raglenni nyrsio cyn cofrestru, lle y nodir y gofynion penodol yn y [Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru](#).

Gofynnodd rhai ymatebwyr am y math o sefydliadau a allai hyfforddi cymdeithion nyrsio. Rydym yn ymdrin â'r cwestiwn hwn [isod](#).

Cododd lleiafrif o'r ymatebwyr bryderon am gymdeithion nyrsion yn gweithredu fel mentoriaid, aseswyr neu oruchwylwyr. Rydym yn credu y dylai cymdeithion nyrsio yn y dyfodol sy'n cael hyfforddiant addas a chymorth yn unol â'r [Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr](#) allu gweithredu fel goruchwylwyr ac aseswyr, yn union fel nyrsys a bydwagedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall gymryd amser nes bod cronfa o gymdeithion nyrsion digon profiadol ar gael i ymgymryd â'r rolau hyn, ac felly rydym wedi dweud y gall nyrsys hefyd ymgymryd â'r rolau hyn.

Cwestiynau ynglŷn â'r Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr

Mae'r *Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr* yn nodi ein gofynion o ran dysgu myfyrwyr a'u goruchwyllo yn yr amgylchedd ymarfer. Maent hefyd yn nodi sut y bydd addysgwyr yn asesu myfyrwyr ym meysydd theori ac ymarfer. Rydym wedi llunio'r safonau hyn i fod yn gymwys i bob rhaglen addysg a gymeradwywyd gan yr NMC. Yn yr ymgynghoriad cynigiwyd y dylid eu cymhwyso at raglenni cymdeithion nyrsio.

Yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid a gweithwyr proffesiynol gofynnwyd dau gwestiwn am y safonau hyn.

Cwestiwn 1:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r *Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr* hefyd fod yn gymwys i raglenni addysg cymdeithion nyrsio?

Cytunodd 90% o'r ymatebwyr y dylai'r safonau hyn fod yn gymwys i raglenni addysg cymdeithion nyrsio hefyd. Roedd 5% yn anghytuno, nid oedd 3% yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 1% 'ddim yn gwybod'. Roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (98%) yn fwy tebygol o gytuno na nyrsys cofrestredig (88%).

Dywedodd y rhai a gytunodd â'r cynnig fod angen safonau uchel, cyson ar gyfer pob proffesiwn nyrsio cofrestredig er mwyn sicrhau triniaeth deg i bob myfyriwr a chynnal trylwyrdd y gofrestr.

"Mae angen i hyfforddiant fod yn gyson ac mae'n bwysig bod safonau addysgol a chymwyseddau yn cael eu cydnabod yn genedlaethol er mwyn cynnal safon gydnabyddedig ar gyfer hyfforddi Cymdeithion Nyrsio ar bob safle hyfforddi." (Cyflogwr GIG)

Ymhlith y grŵp hwn roedd gwahaniaeth barn ynghylch p'un a ddylai cymdeithion nyrsio weithredu fel goruchwylwyr neu aseswyr. Teimlai rhai mai dim ond nyrsys cofrestredig a ddylai wneud hyn, ond roedd rhai yn cefnogi'r syniad o gymdeithion nyrsio yn gweithredu fel goruchwylwyr ond nid aseswyr. Roedd eraill am weld y rôl yn cael ei hehangu i weithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill. Ymdriniwyd â phwnc aseswyr yng nghwestiwn 2.

O blith y lleiafrif bach o ymatebwyr a oedd yn anghytuno, dywedodd rhai nad oeddent yn cefnogi'r syniad o gymdeithion nyrsio yn goruchwyllo nac yn asesu'r rhai dan hyfforddiant, yn enwedig nyrsys dan hyfforddiant. Er enghraifft:

"Dim ond nyrs gofrestredig ddylai asesu nyrs dan hyfforddiant. Ond mae goruchwyllo, rhannu gwybodaeth a phrofiad gan gydymaith yn hanfodol." (Nyrs iechyd meddwl gofrestredig)

Gwnaeth ymatebwyr â barn amrywiol rai sylwadau o ran p'un a ddylai cymdeithion nyrsio gael statws ychwanegol. Rydym yn ymdrin â statws ychwanegol [isod](#).

Roedd rhai yn galw am eglurhad ynghylch p'un a fyddai cymdeithion nyrsio yn asesu nyrsys dan hyfforddiant a ph'un a fyddai goruchwyllo a mentora yn rhan o raglenni cyn cofrestru.

Ymhlith rhai rhanddeiliaid sy'n sefydliadau, bu rhywfaint o gefnogaeth i ddull mwy hyblyg o ddarparu dysgu ymarfer. Awgrymodd rhai y dylid rhoi mwy o sylw i sicrhau bod mentoriaid a goruchwylwyr yn cael yr amser a'r cymorth i ymgymryd â'r rôl hon ym maes ymarfer.

Cwestiwn 2

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai nyrsys cofrestredig a chymdeithion nyrsio allu cyflawni rôl asesydd academaidd neu ymarfer?

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (65%) y dylai nyrsys cofrestredig a chymdeithion nyrsio allu cyflawni rôl asesydd academaidd neu ymarfer. Roedd 22% o'r ymatebwyr yn anghytuno ac nid oedd 13% yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd unigolion (26%) yn fwy tebygol o anghytuno na sefydliadau (11%). Ymhlith yr unigolion, roedd nyrsys cofrestredig/bydwagedd ac addysgwyr yn fwy tebygol o anghytuno na chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant.

Ar y cyfan, roedd y rhai a oedd yn anghytuno ac wedi rhoi sylwadau i ni o'r farn y dylai nyrsys cofrestredig gadw'r cyfrifoldeb am asesu nyrsys dan hyfforddiant. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn o'r farn na ddylai cymdeithion nyrsio fyth dod yn aseswyr. Yn eu barn nhw, byddai'n rhoi baich annheg ar gymdeithion nyrsio o ystyried eu rôl a'u gradd cyflog neu weithwyr proffesiynol nyrsio graddedig ddylai gyflawni asesiadau. Roedd ymatebwyr yn aml yn mynegi barn gyfeiliornus mai nyrsys fyddai'n atebol am ymarfer cymdeithion nyrsio, ond goblygiad clir rheoleiddio proffesiynol yw y bydd gan gymdeithion nyrsio eu trefniadau atebolrwydd proffesiynol unigol eu hunain.

“Y nyrs gofrestrredig sy'n atebol yn y pen draw am unrhyw fethiant mewn ymarfer felly dylai pob ymarfer gael ei oruchwyllo a'i asesu gan nyrs gofrestrredig er mwyn sicrhau ymarfer cywir.” (Ymatebydd dienw)

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai cymdeithion nyrsio chwarae rôl i asesu cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant ond dim ond ar ôl cael hyfforddiant ychwanegol neu eu paratoi, neu os oeddent wedi cyrraedd lefel dderbyniol o brofiad ac o fewn eu maes arbenigol eu hunain.

“Roedd cryn gytundeb ymhlith ymatebwyr y dylai cymdeithion nyrsio allu cyflawni rolau aseswyr ymarfer i gymdeithion nyrsio, yn amodol ar addysg briodol, profiad a chyflawni'r lefel ofynnol o gymhwysedd clinigol.... Fodd bynnag, o ystyried y gostyngiadau diweddar mewn cyllid DPP, gall hyn fod yn heriol i'w gyflawni.” (Sefydliad proffesiynol ac undeb llafur)

Roedd eraill o'r farn mai dim ond asesu neu oruchwyllo cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant y dylai cymdeithion nyrsio allu ei wneud.

Ein hymateb

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion i gymhwyso'r Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr at raglenni cymdeithion nyrsio (90% o'r ymatebwyr) ac i ganiatáu i nyrsys cofrestredig a chymdeithion nyrsio gyflawni rôl asesydd academiaidd neu ymarfer (65% o'r ymatebwyr).

Fel y nodwyd [uchod](#), ein safbwynt yw y dylai cymdeithion nyrsio, dros amser, allu gweithredu fel goruchwylwyr ac aseswyr, yn union fel nyrsys a bydwagedd. Rydym yn cydnabod y gall gymryd peth amser cyn bod cymdeithion nyrsio yn gallu ymgymryd â'r rolau hyn ac yn cydnabod y sylwadau a wnaed gan rai ymatebwyr am bwysigrwydd hyfforddiant. Rydym eisoes yn pennu gofynion ynglŷn â'r hyfforddiant a'r profiad sydd eu hangen ar bob goruchwylwr ac asesydd yn y [Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr](#).

Mae'r *Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr* yn ei gwneud yn glir bod nyrsys dan hyfforddiant yn cael eu hasesu gan nyrsys cofrestredig a bod cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn cael eu hasesu gan gydymaith nyrsio cofrestredig neu nyrs gofrestrdig.

Byddwn yn diweddarau'r *Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr* er mwyn eu cymhwyso at raglenni cymdeithion nyrsio. Rydym hefyd wedi datblygu ychydig o [wybodaeth ategol](#) sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am rôl goruchwylwr ymarfer. Bydd gwybodaeth ategol am rolau aseswyr academiaidd ac aseswyr ymarfer hefyd.

Safonau ar gyfer addysg cymdeithion nyrsio cyn cofrestru

Mae ein *Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru* yn nodi'r gofynion cyfreithiol, y gofynion o ran mynediad, argaeledd cydnabod dysgu blaenorol, hyd y rhaglen, dulliau asesu a gwybodaeth am ddyfarnu y mae'n rhaid i bob sefydliad addysg cymeradwy a'i bartneriaid lleoliadau ymarfer eu bodloni er mwyn rhedeg rhaglenni cymeradwy ar gyfer cymdeithion nyrsio cyn cofrestru. Mae'n rhaid iddynt hefyd fodloni'r gofynion a nodir yn y *Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth a'r Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr*.

Mae ein safonau addysg yn ymwneud â mynediad at broffesiwn newydd cydymaith nyrsio; nid safonau i'w defnyddio yng nghyd-destun prentisiaethau yn unig ydynt. Gwyddom fod y llywodraeth yn bwriadu i gyllid prentisiaethau gael ei ddefnyddio i ariannu rhaglenni cymdeithion nyrsio, ond gwyddom hefyd fod llwybrau confensiynol nad ydynt yn brentisiaethau yn yr arfaeth. Sut bynnag, ein rôl yw pennu'r safonau ar gyfer proffesiwn, yn hytrach na llwybr. Ni waeth pa ddull gweithredu a fabwysiedir, mae'n rhaid i ddarparwyr addysg fodloni ein safonau er mwyn rhedeg rhaglenni cymdeithion nyrsio.

Mae'r *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru* yn gwbl newydd.

Yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid gofynnwyd 11 o gwestiynau am y safonau hyn. Gofynnodd yr ymgynghoriad i'r cyhoedd ddau gwestiwn am y gwerthoedd a'r rhinweddau personol y bydd eu hangen ar gymdeithion nyrsio, a'r rhaniad rhwng dysgu theori a dysgu ymarferol.

Yn yr adrannau dilynol, rydym yn rhoi trosolwg byr o'r ymatebion a gafwyd ym mhob maes ac yn rhoi ein hymateb.

Gwerthoedd a rhinweddau personol cymdeithion nyrsio

Gofynnodd yr ymgynghoriad i'r cyhoedd y cwestiwn canlynol:

Wrth dderbyn cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant ar gyrsiau, rydyn ni'n credu y dylai addysgwyr ystyried eu gwerthoedd a'u rhinweddau personol. Pa werthoedd a rhinweddau personol y mae eu hangen ar gymdeithion nyrsio, yn eich barn chi, i gyflwyno gofal tosturiol a diogel ac o ansawdd uchel?

Cafwyd 96 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, 39 gan aelodau o'r cyhoedd a 49 gan weithwyr proffesiynol neu fyfyrwyr.

Tosturi ac empathi oedd y rhinweddau a grybwyllwyd amlaf. Ymhlith y rhinweddau personol eraill a godwyd yn aml roedd:

- rhywun y gellir ymddiried ynddo, yn ddibynadwy ac yn onest. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i aelodau o'r cyhoedd.
- ymroddiad ac ymrwymiad. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i fyfyrwyr a gweithwyr proffesiynol.

- arbenigedd a phroffesiynoldeb. Cyfeiriodd aelodau o'r cyhoedd at hyn mewn perthynas ag addysg ac ymddygiad cyffredinol.

Tynnodd ymatebwyr sylw at y canlynol hefyd:

- sgiliau cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol
- sgiliau trefnu
- gwybodaeth feddygol/glinigol
- bod yn barod i wrando neu'n wrandawr da.

Ein hymateb

Mae ein *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru* yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau addysg cymeradwy a'u partneriaid lleoliadau ymarfer gadarnhau bod myfyrwyr, wrth ddechrau ar y rhaglen, yn dangos y gwerthoedd ac yn gallu dysgu'r ymddygiadau a nodir yn ein Cod.

Mae'r rhinweddau a'r gwerthoedd a grybwyllir mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cael eu hadlewyrchu drwy ein Cod a'n safonau cyfan. Mae'n amlwg bod y rhain yn bwysig i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd, ac mae'r ymatebion wedi rhoi sicrwydd i ni ein bod yn gweithredu'n gywir wrth gymhwyso'r rhain at gymdeithion nyrsio.

Cydnabod dysgu blaenorol

Mae'r Safonau yn caniatáu i sefydliadau addysg cymeradwy gydnabod dysgu blaenorol ymgeiswyr sydd am ymuno â rhaglenni cymdeithion nyrsio hyd at derbyn o 50% o'r rhaglen.

Golyga hyn na all sefydliadau addysg cymeradwy wrthbwysu dysgu blaenorol yn erbyn mwy na 50% o raglen cymdeithion nyrsio.

Yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid gofynnwyd dau gwestiwn am gydnabod dysgu blaenorol.

Cwestiwn 1:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod terfyn o 50 y cant ar gydnabod dysgu blaenorol hefyd yn briodol ar gyfer ymgeiswyr sydd am ymuno â rhaglen cymdeithion nyrsio?

Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (65%) fod terfyn o 50% yn briodol. Roedd 18% yn anghytuno, nid oedd 14% yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 3% 'ddim yn gwybod'. Roedd sefydliadau (79%) yn fwy tebygol o gytuno nag unigolion (63%).

Ymhlith y rhai a roddodd sylwadau, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y terfyn yn rhy isel ac roedd eraill yn dadlau ei fod yn rhy uchel. Er enghraifft:

“Ni wn sut y byddech yn sicrhau bod digon o rychwant o wybodaeth o ddysgu blaenorol er mwyn dilysu credyd o 50 y cant. Rwy’n credu y dylai fod yn rhaid i bob myfyriwr gwblhau’r rhaglen gyfan er mwyn ymuno â’r gofrestr.” (Nyrs gofrestredig)

“Gradd sylfaen neu ran o raglen i nyrsys cofrestredig lle gellid mapio cynnwys y cwrs a’r amcanion dysgu i fwy na 50%. Mae angen mwy o hyblygrwydd o ran hyn. Byddai angen cyflawni lleoliad ac oriau ymarfer.” (Cyflogwr GIG)

Cododd ychydig o ymatebwyr bryderon y gall dysgwyr gael credydau am ddysgu amherthnasol:

“Dylai ddibynnu ar ba bynciau a astudiwyd a pha mor ddiweddar, mae’n rhaid, dylai fod yn rhywbeth unigol” (Nyrs gofrestredig)

Teimlai rhai ymatebwyr y dylai’r terfyn fod yn uwch lle dangoswyd bod portffolio o ddysgu blaenorol a phrofiad yn cyfateb i hyfforddiant cydymaith nyrsio. Un enghraifft benodol a roddwyd oedd achos ymarferwyr cynorthwyol:

“I’r rhai sydd wedi cwblhau gradd sylfaen i weithio fel Ymarferydd Cynorthwyol; dylent gael eu hasesu’n unigol, gyda rhaglen lleoliad bwrpasol i’w galluogi i drosglwyddo. I’r rhai gall fod yn flwyddyn, i eraill dim ond un lleoliad.” (Cyflogwr GIG)

Ymhlith y lleiafrif o ymatebwyr a anghytunodd ac a wnaeth sylwadau, y prif bryder oedd y byddai cydnabod dysgu blaenorol yn arwain at leihad mewn dysgu sy’n benodol i rôl cydymaith nyrsio.

Ein hymateb

Mae cydnabod dysgu blaenorol yn egwyddor sefydledig ymhlith darparwyr addysg. Mae’n caniatáu i’r darparwr addysg ystyried profiad perthnasol blaenorol myfyriwr pan fydd yn ymuno â rhaglen. Y darparwr addysg sy’n penderfynu faint o brofiad blaenorol yn union a all gyfrif tuag at raglen bresennol myfyriwr. Mae’r darparwr addysg yn penderfynu ar hyn ar sail achos unigol.

Yn yr ymgynghoriad, cynigiwyd y gallai’r profiad blaenorol hwn gyfrif am hyd at 50% tuag at raglen cymdeithion nyrsio (oni bai bod yr unigol yn nyrs gofrestredig – gweler cwestiwn 2 isod).

Roedd y safonau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn ei gwneud yn glir mai dim ond dysgu y gellir ei fapio i’r *Safonau hyfedredd ar gyfer cymdeithion nyrsio* y caniateir ei gydnabod fel dysgu blaenorol. Golyga hyn na fyddai cyrsiau sy’n cwmpasu dysgu amherthnasol yn cyfrif.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai’r terfyn fod yn uwch i ymarferwyr cynorthwyol sydd â gradd sylfaen. Ar ôl ystyriaeth ofalus, rydym wedi penderfynu na ddylem gymhwyso terfyn uwch at ymarferwyr cynorthwyol, a hynny am nad oes dull gweithredu ar sail grŵp y gallem ei gymhwyso’n ddiogel, gan y gall cynnwys rhaglenni i ymarferwyr cynorthwyol amrywio’n sylweddol.

Credwn mai cymhwyso terfyn o 50% yw'r dull gweithredu cywir a chefnogwyd hyn gan y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Mater yn ôl disgrisiwn darparwyr addysg ydyw.

Cwestiwn 2:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno na ddylid cael terfyn ar ddysgu blaenorol ar raglenni cymdeithion nyrsio ar gyfer nyrsys cofrestredig?

Roedd ychydig o dan hanner (46%) yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd 28% yn anghytuno ac nid oedd un o bob pump (19%) yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd unigolion (30%) yn fwy tebygol o anghytuno na sefydliadau (20%). Roedd nyrsys cofrestredig neu fydwragedd (48%) yn fwy tebygol o gytuno na chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (35%).

Roedd y prif sylw a godwyd mewn ymatebion (gan y rhai a oedd yn cytuno neu'n anghytuno) yn ymwneud â'r goblygiadau i ansawdd gofal. Mynegodd rhai bryder am yr amser a oedd wedi mynd heibio ers hyfforddiant neu ymarfer blaenorol neu'r ffaith y gallai'r llwybr hwn gael ei ddefnyddio gan bobl sy'n destun sancsiynau addasrwydd i ymarfer:

"Rwy'n credu bod angen i hyn fod yn gliriach mewn perthynas â materion addasrwydd i ymarfer a all fod cael eu codi. Mae dim terfyn yn iawn cyhyd â bod arweiniad ar yr hyn a all atal nyrs gofrestredig rhag ymuno â'r gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio." (Addysgwr nyrsio)

Rheswm arall a roddwyd gan y rhai a oedd yn anghytuno oedd yr angen i gydnabod y gwahaniaethau rhwng y maes llafur i nyrsys a chymdeithion nyrsio.

Nododd nifer fach o'r rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig y dylai nyrsys cofrestredig gael eu hasesu cyn dod yn gymdeithion nyrsio. Er enghraifft:

"Ni ddylid caniatáu i nyrsys cofrestredig ymuno â'r gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio nac ymarfer fel cydymaith nyrsio yn awtomatig. Dylai fod yn ofynnol i nyrsys cofrestredig sy'n cael eu cyflogi mewn swyddi i gymdeithion nyrsio lwyddo mewn asesiad ar wahân i gymdeithion nyrsio a fyddai'n eu galluogi i ymuno â chofrestr y cymdeithion nyrsio." (Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)

Ein hymateb

Mae'n amlwg o'r sylwadau a wnaed fod rhywfaint o gamddealltwriaeth ynglŷn â'r cwestiwn hwn. Mae'r gwahaniaeth barn rhwng y gwahanol opsiynau yn adlewyrchu hyn.

Cynigiwyd na ddylid cymhwyso terfyn ar gydnabod dysgu blaenorol nyrsys cofrestredig sydd am ymuno â rhaglen i gymdeithion nyrsio. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae gan y darparwr addysg y disgrisiwn i benderfynu faint o ddysgu blaenorol y mae'n dewis ei gydnabod ar sail achos unigol.

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad addysg cymeradwy "[d]dangos proses gadarn o gydnabod dysgu blaenorol a sut mae wedi'i fapio i ddeilliannau dysgu'r

rhaglen a safonau hyfedredd". (Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth, gofyniad 2.8). Dylai hyn ystyried y gwahaniaethau rhwng y maes llafur i nyrsys ac i gymdeithion nyrsio, fel y nodwyd yn y sylwadau. Dylid hefyd ystyried faint o amser sydd wedi mynd heibio rhwng hyfforddiant neu ymarfer blaenorol rhywun ac ymuno â rhaglen i gymdeithion nyrsio.

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd am unigolion a all fod yn destun sancsiynau addasrwydd i ymarfer. Nid yw'r mater hwn yn un sy'n benodol i raglenni cymdeithion nyrsio ac mae'n rhywbeth y dylai darparwyr addysg fod yn barod i ymdrin ag ef.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd rydym wedi diweddarau'r *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru* i gynnwys cyfeiriadau at gyfyngiadau ar ymarfer. Ni fydd y terfyn yn gymwys i nyrsys cofrestredig nad oes ganddynt gyfyngiadau ar eu hymarfer.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai rhaglen dychwelyd i ymarfer liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unigolion sy'n destun sancsiynau addasrwydd i ymarfer. Fodd bynnag, nod rhaglenni dychwelyd i ymarfer yw dychwelyd rhywun i'r rhan o'r gofrestr lle y bu'n flaenorol. Er eglurder, ni fyddai nyrsys cofrestredig yn gallu ymuno â'r rhan o'n cofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio yn awtomatig. Bydd angen iddynt ennill cymhwyster i gymdeithion nyrsio a gymeradwyir gan yr NMC.³

Er i'r cwestiwn hwn gael llai o gefnogaeth nag eraill, roedd mwy o ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno. Credwn o hyd mai hwn yw'r dull gweithredu cywir. Rydym yn gobeithio bod y sylwadau uchod a'r geiriad wedi'i ddiweddarau yn y safonau wedi lleddfu rhai o bryderon y lleiafrif o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig.

Y rhaniad rhwng theori ac ymarfer

Cynigiodd y *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru* gydbwysedd cyfartal rhwng theori ac ymarfer yn y cwricwlwm. Mae hyn yn adlewyrchu'r gofyniad ar gyfer rhaglenni nyrsio. Cynigiwyd y dylai fod yn gymwys i raglenni cymdeithion nyrsio yn yr un modd, er mwyn hwyluso camu ymlaen i astudio graddau nyrsio.

Gofynnwyd tri chwestiwn ar hyn yn yr ymgynghoriad – dau gwestiwn yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid ac un yn yr ymgynghoriad i'r cyhoedd. Mae ein hymateb [isod](#) yn cwmpasu pob un o'r tri chwestiwn.

Cwestiwn 3:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai rhaglenni cymdeithion nyrsio ddarparu cydbwysedd cyfartal rhwng dysgu theori ac ymarferol?

Roedd dros dri chwarter (77%) yr ymatebwyr yn cytuno y dylai fod cydbwysedd cyfartal rhwng dysgu theori ac ymarfer. Roedd llai nag un o bob pump (16%) yn anghytuno. Nid oedd 6% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 1% 'ddim yn gwybod'.

³ Os ydynt yn gwneud cais o'r tu allan i Loegr, lle nad oes gennym y pwerau i gymeradwyo darparwyr addysg cymdeithion nyrsio, bydd angen i ni werthuso eu cymhwyster er mwyn gweld a yw'n cyrraedd ein safonau. Efallai y bydd angen i'r ymgeiswyr hyn sefyll prawf cymhwysedd.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig ac wedi rhoi sylwadau o'r farn ei bod yn bwysig cadw cydbwysedd da rhwng theori ac ymarfer. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn galluogi cymdeithion nyrsio i gamu ymlaen i rôl nyrs gofrestrdig ac y byddai'n adlewyrchu'r gofynion a nodwyd yn neddfwriaeth yr UE. Byddai hefyd yn helpu cymdeithion nyrsio i ddeall 'pam' yn ogystal â 'sut'. Ymhlith yr enghreifftiau o'r sylwadau mae:

"Mae hon yn egwyddor bwysig wrth baratoi nyrsys cofrestredig, ac, yn ein barn ni, nid oes unrhyw reswm dros wyro oddi wrthi yn achos cymdeithion nyrsio. Mae hyn hefyd yn bwysig os bydd cymdeithion nyrsio am gael mynediad cyflymach at raglenni nyrsys cofrestredig." (Sefydliad 'arall')

"Dylent ddysgu'r theori i ddeall eu hymarfer beth bynnag y bo'n ymwneud ag ef. Mae nyrsio yn rôl ymarferol ond mae angen ddealltwriaeth drylwyr o'r theori er mwyn cadw cleifion yn ddiogel a hyrwyddo eu lles i safon uchel." (Nyrs Gofrestredig ymddeoledig)

Soniodd sawl un am werth dysgu yn y gweithle. Dywedodd ymatebwyr eraill fod angen mwy o amser ychwanegol i gefnogi dysgu ymarfer a nododd un sefydliad sy'n rhanddeiliad y dylai hyfforddiant ac addysg cymdeithion nyrsion fod yn gyfrifoldeb ar y cyd ar gyflogwyr ac addysgwyr.

Roedd y lleiafrif o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig ac wedi rhoi sylwadau o'r farn y dylai fod mwy o ymarfer na theori ar y cyfan. Gwnaethant bwysleisio'r sgiliau technegol a natur gyffredinol y rôl er mwyn ategu eu dadleuon. Er enghraifft:

"Rwy'n credu y dylai fod mwy o bwys ar ymarfer. Nid yw dwy flynedd yn llawer o amser i gael cymhwysedd ac ennyn hyder mewn lleoliadau clinigol." (Nyrs gofrestrdig)

Roedd sylwadau eraill yn gwneud cymariaethau â phrentisiaethau (sydd â rhaniad 80:20 yn aml), gan nodi bod yr arfer presennol o dreulio un diwrnod yr wythnos yn y brifysgol yn gweithio'n dda, neu awgrymu y gellid addysgu theori mewn lleoliad ymarfer hefyd. Cyfeiriodd ychydig o ymatebwyr at rôl efelychu.

Dywedodd nifer fach o ymatebwyr y byddai cydbwysedd 50:50 yn rhy gostus i gyflogwyr. Er enghraifft:

"Bydd hyn yn anodd i'w hwyluso'n ymarferol, yn enwedig gan y bydd y rhan fwyaf o Ymddiriedolaethau'r GIG yn defnyddio'r lefi brentisiaethau i'w ariannu ac yn talu cyflog i gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant. Efallai y byddai hyn yn bosibl ar gyfer llwybr nad yw'n ymwneud â phrentisiaeth, ond yr ateb o bosibl yw gwneud y llwybr prentisiaeth yn hirach er mwyn hwyluso llai o amser i ffwrdd o oriau gwaith cynhyrchiol." (Nyrs gofrestrdig)

"Nid yw gosod cydbwysedd cyfartal o ddysgu theori ac ymarfer yn realistig ar gyfer llwybrau dysgu seiliedig ar waith." (Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)

Cwestiwn 4:

Os ateboch anghytuno neu anghytuno'n gryf i C3, pa rai o'r canlynol ydych chi'n ystyried fyddai'n gydbwysedd priodol o ddysgu theori ac ymarfer?

- Mwy o ddysgu theori a llai o ymarfer
- Mwy o ddysgu ymarfer a llai o theori
- Dim gofyniad gan yr NMC

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn o'r farn y dylai fod mwy o ymarfer a llai theori (60%). Roedd 26% o'r farn y dylai fod mwy o theori a llai ymarfer a dywedodd 15% na ddylai'r NMC bennu'r gofyniad.

Roedd y rhai a oedd yn cefnogi mwy o ymarfer yn teimlo bod llwyddiant y rôl yn dibynnu ar sgiliau ymarferol ac mai treulio mwy o amser yn dysgu mewn lleoliad seiliedig ar waith oedd yr opsiwn gorau.

Roedd y rhai a oedd o'r farn bod angen mwy o theori yn teimlo ei bod yn bwysig bod cymdeithion nyrsio yn deall y theori sy'n sail i'w hymarfer. Er enghraifft:

"Mae angen i nyrsio fod yn broffesiwn sydd â mwy o bwyslais ar ddatrys problemau. Llai o ffocws ar sgiliau a blychau ticio." (Addysgwr nyrsio).

Yn y sylwadau, roedd gwahaniaeth barn ymhlith yr ymatebwyr o ran p'un a ddylai dysgu ymarfer fod yn ychwanegol, a ph'un a oedd angen newidiadau i'r model a ddefnyddiwyd yn y cynllun peilot HEE ai peidio.

Roedd gwahaniaeth barn ymhlith rhai sefydliadau sy'n rhanddeiliaid o ran p'un a ddylai'r NMC bennu'r rhaniad rhwng theori ac ymarfer. Er enghraifft:

"Os na fydd yr NMC yn pennu gofynion penodol, gallai hyn arwain at amrywiadau mawr rhwng rhaglenni hyfforddiant. Byddai hyn yn tanseilio'r gwaith o ddatblygu rhaglen addysg safonol." (Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)

"Ni ddylai'r NMC bennu rhaniad penodol." (Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)

Yr ymgynghoriad i'r cyhoedd

Yn yr ymgynghoriad i'r cyhoedd, gofynnwyd y cwestiwn canlynol ar y rhaniad rhwng theori ac ymarfer:

Un o'n prif gyfrifoldebau yw gwneud yn siŵr bod cymdeithion nyrsio yn cael eu hyfforddi'n ddiogel ac yn effeithiol. Gan y bydd cymdeithion nyrsio yn ymwneud â chyflwyno gofal uniongyrchol, rydyn ni'n credu y dylen nhw

dreulio hanner eu hamser hyfforddi mewn lleoliadau fel ysbytai, cartrefi gofal a meddygfeydd yn dysgu sgiliau ymarferol, a'r hanner arall yn dysgu'r theori a fydd yn sail i'w harferion. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn o weithredu?

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr (85%) yn cytuno â'r dull gweithredu hwn. Dim ond 12% a oedd yn anghytuno ac atebodd 3% 'ddim yn gwybod'.

Roedd y rhai a gefnogodd hyn yn croesawu'r elfen ymarferol o'r hyfforddiant a'r ffaith bod lleoliadau gofal iechyd gwahanol yn cael eu cynnwys. Er enghraifft:

"Mae angen nyrsys/cymdeithion nyrsio sy'n gallu adnabod arwyddion/symptomau ac felly eu trin/rheoli. Nid dim ond y rhai sydd wedi cael eu haddysgu i ysgrifennu traethawd arno." (Aelod o'r cyhoedd)

Awgrymodd sawl unigolyn fod lle i gynnwys profiad gofal hyd yn oed mwy ymarferol.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig yn aml yn anghytuno am eu bod yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant ymarferol. Er enghraifft:

"Nid oes digon o ofal uniongyrchol." Dylai fod 70/30 rhwng ymarfer clinigol/ystafell ysgol" (Aelod o'r cyhoedd).

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno, roedd sawl ymatebydd a gododd bryderon y byddai cymdeithion nyrsio yn cael eu defnyddio fel "llafur rhad". Fel y nodwyd eisoes, nid ydym yn chwarae rôl yn y broses o bennu cyflog nyrsys a chymdeithion nyrsio na'r ffordd y cânt eu defnyddio ac felly mae'r sylwadau hyn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Ein hymateb

Roed y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad i randdeiliaid a'r ymgynghoriad i'r cyhoedd yn cefnogi cydbwysedd cyfartal rhwng theori ac ymarfer wrth hyfforddi cymdeithion nyrsio ac rydym yn fodlon ein bod wedi dewis y dull gweithredu cywir. Mewn sylwadau, nododd ymatebwyr y byddai hyn yn gyson â'r gofynion i nyrsys ac felly y byddai'n helpu cymdeithion nyrsio i gamu ymlaen i fod yn nyrsys cofrestredig.

Mae'n amlwg o'r sylwadau bod ymatebwyr yn rhoi gwerth ar ddysgu ymarfer, ac roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig o raniad 50:50 yn fwy tebygol o gefnogi mwy o ffocws ar ymarfer. O ganlyniad i gefnogaeth y mwyafrif i'r cydbwysedd cyfartal a gynigiwyd rhwng theori ac ymarfer yn y rhaglen i gymdeithion nyrsio, mae'r sefyllfa hon wedi aros yn y safonau terfynol. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i fyfyrwyr dreulio hanner eu horiau rhaglen mewn sefydliad addysgol a hanner mewn amgylchedd dysgu ymarfer. Mae'n ymwneud â chynnwys y dysgu, yn hytrach na'r lleoliad.

Profiadau dysgu

Mae'r *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru* yn pennu y dylai myfyrwyr gael profiadau dysgu sy'n cynnwys cleifion sydd ag anghenion amrywiol ar bob cam o'r cylch oes, ac mewn amrywiaeth o leoliadau.

Ni phennwyd faint o amser y dylid ei dreulio, er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i ddarparwyr cymeradwy ddatblygu rhaglenni hyfforddiant eang. Pan fyddwn yn cymeradwyo rhaglenni gallwn ystyried p'un a yw'r profiadau dysgu yn ddigon eang. Mae hyn yn gyson â'r ffordd rydym yn gweithredu o ran rhaglenni nyrsio.

Gofynnwyd dau gwestiwn am brofiadau dysgu yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid:

Cwestiwn 5:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno mai dyma'r dull cywir i sicrhau ehangder priodol ym mhrofiadau dysgu cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (69%) yn cytuno mai'r dull gweithredu a nodwyd yn yr ymgynghoriad oedd y dull cywir. Roedd 19% o'r ymatebwyr yn anghytuno ac nid oedd 10% yn cytuno nac yn anghytuno. Atebodd 2% o'r ymatebwyr 'ddim yn gwybod'.

Roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (34%) yn fwy tebygol o gytuno â'r dull gweithredu na nyrsys cofrestredig/bydwragedd (18%) ac addysgwyr (16%).

Gwnaeth tua un o bob pum ymatebydd (21%) sylwadau pellach. Dywedodd y rhai a oedd yn cytuno eu bod o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod profiadau dysgu myfyrwyr yn eang a bod hyblygrwydd o ran sut y cyflawnir hyn. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn mynegi safbwyntiau tebyg ac yn gofyn am fwy o arweiniad, gan roi pwyslais ar yr angen am fonitro trylwyr. Er enghraifft:

“Bydd angen cymwysterau llym er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu bodloni drwy ddefnyddio amrywiaeth o leoliadau. Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth bod mwy nag un lleoliad/amgylchedd clinigol wedi cael ei ddefnyddio i fodloni gofynion y rhaglen.” (Cyflogwr GIG)

Ymhlith y prif themâu eraill a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno roedd y canlynol:

- Gofyn am fwy o eglurder ynglŷn â thermau megis 'profiad' ac 'amlygiad', a p'un a oes rhaid cael amlygiad drwy leoliadau. A gofyn am arweiniad er mwyn sicrhau bod cymdeithion nyrsio yn cael digon o amlygiad i'r mathau o bobl y maent yn debygol o weithio gyda nhw ar ôl cymhwyso. Er enghraifft:

“Mae risg y bydd cydymaith nyrsio dan hyfforddiant ond yn cael profiad o leoliadau oedolion yn bennaf ond ar ôl cymhwyso a chofrestru bydd ar gofrestr sy'n nodi y gallai weithio mewn unrhyw leoliad maes nyrsio. Felly, rydym yn pryderu y bydd diffyg arweiniad gan yr NMC yn arwain at amrywiadau annerbyniol mewn profiadau dysgu i gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant.” (Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig peidio â bod yn rhy ragnodol. Awgrymodd rhai y dylai fod lleiafswm cyfnod y cytunwyd arno ym mhob maes er mwyn sicrhau dyfnder gwybodaeth.

- Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ofynion presennol HEE i gael profiad yn agos i'r cartref, yn y cartref ac mewn ysbyty ac ar bob cam o'r cylch oes fel ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hamlygu i amgylchiadau gwahanol.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod profiad wedi'i wasgaru'n rhy denau ac nad oedd yn realistig cwmpasu popeth mewn cwrs hyfforddiant dwy flynedd. Roedd eraill yn teimlo bod y gofyniad am ehangder yn cyfyngu ar yr amser y gall myfyrwyr ei dreulio yn eu dewis feysydd ac ar allu cyflogwyr i ddatblygu gweithlu arbenigol lle y bo angen.

Cwestiwn 6:

Os ateboch anghytuno'n gryf neu anghytuno i C5, pa un o'r canlynol ydych chi'n ystyried fyddai'n ddewis gwell i sicrhau bod sefydliadau addysg cymeradwy yn darparu amlygiad eang i fyfyrwyr i ymarfer nyrsio?

- **Gosod gofyniad penodol ar gyfer oriau fesul maes/lleoliad yn y safonau**
- **Darparu arweiniad ar beth fyddai'n briodol**
- **Monitro hyn trwy sicrhau ansawdd rhaglenni cymdeithion nyrsio**
- **Arall - nodwch**

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 91 o ymatebwyr i gyd, 64 o unigolion a 21 o sefydliadau (ni nododd 6 sut roeddent yn ymateb). Nid oedd pob ymateb gan yr unigolion hynny a oedd wedi anghytuno â C5. Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu wedi ateb 'ddim yn gwybod'.

Roedd ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ymateb i'r cwestiwn hwn. Yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd y dylem ddarparu arweiniad ar yr hyn a ddylai fod yn briodol (56%) Yr opsiynau eraill (yn nhrefn eu poblogrwydd) oedd:

- Gosod gofyniad penodol ar gyfer oriau fesul maes/lleoliad yn y safonau (47% o'r ymatebwyr)
- Monitro hyn trwy sicrhau ansawdd rhaglenni cymdeithion nyrsio (37% o'r ymatebwyr)
- Arall (14% o'r ymatebwyr)

Dim ond nifer fach o'r ymatebwyr a wnaeth awgrymiadau ar gyfer modelau amgen. Ymhlith y rhain roedd:

- Cydbwysu'r amser a dreulir rhwng y prif feysydd nyrsio (gan gynnwys anableddau dysgu a nyrsio plant)
- Rhywfaint o gefnogaeth i bennu gofyniad oriau penodol
- Rhaglenni sy'n ymwneud â meysydd penodol yn hytrach na hyfforddiant cyffredinol.

Mynegodd un ymatebydd bryder ar sail tystiolaeth anecdotaidd y gallai gormod o hyblygrwydd arwain at amrywiadau i rai cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant:

*“Nododd ymatebwyr amrywiadau ac anghysondebau sylweddol yn y safleoedd prawf presennol i gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant a mynegwyd pryderon am oblygiadau fframwaith hyd yn oed mwy llac...Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai'r NMC roi mwy o eglurder o ran gofynion ar gyfer cwricwlwm hyfforddiant safonol a sicrhau ei ansawdd, hyd lleoliadau ac amlygiad i wahanol leoliadau gofal.”
(Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)*

Ein hymateb

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (69%) yn cytuno â'r dull gweithredu a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig bod y Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael ehangder yn eu profiadau dysgu a bod rhaglenni cymeradwy yn cael hyblygrwydd o ran sut i gyflawni hyn. Felly, rydym yn teimlo bod modd cyfiawnhau ein dull gweithredu ac nad oes angen i ni fod yn fwy rhagnodol o ran faint o amser y dylid ei dreulio.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr, rhai a oedd yn cytuno a rhai a oedd yn anghytuno, am fwy o eglurder ac arweiniad. Felly, byddwn yn rhoi gwybodaeth ategol ychwanegol am hyn.

Nodwn y sylwadau am bwysigrwydd monitro cadarn. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, wrth gymeradwyo rhaglenni byddwn yn gallu ystyried yr hyn y mae sefydliadau addysg cymeradwy a'u partneriaid lleoliadau ymarfer wedi'i roi ar waith i gyflawni'r safon hon a ph'un a yw'r profiadau dysgu arfaethedig yn ddigon eang. Fel ar gyfer pob rhaglen, bydd gwaith monitro yn asesu p'un a barheir i gydymffurfio â'r safonau.

Amser dysgu wedi'i neilltuo wrth ymarfer

Mae gwneud myfyrwyr yn staff ychwanegol yn golygu na chaniateir eu cyfrif yn nifer y staff sy'n ofynnol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol mewn lleoliad. Nid yw hyn yn golygu na all myfyrwyr roi gofal. Bydd lefel yr oruchwyliaeth sydd ei hangen arnynt yn newid wrth iddynt ddod yn fwy hyfedr a hyderus.

Gofynnodd yr ymgynghoriad i weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid am safbwyntiau ar gymhwyso statws ychwanegol at leoliadau ymarfer ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru. Roedd rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y dylem ystyried dulliau eraill o gefnogi dysgu myfyrwyr mewn ymarfer, gan fod addysg broffesiynol yn cael ei darparu drwy fodolau gwahanol bellach. Felly, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi a oedd hyn yn briodol yn eu barn nhw.

Cwestiwn 7:

O ran egwyddor, a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai statws ychwanegol ar leoliadau ymarfer fod yn ofyniad ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru cymdeithion nyrsio?

Cytunodd 66% o'r ymatebwyr y dylai statws ychwanegol ar leoliadau ymarfer fod yn ofyniad ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru. Roedd 21% o'r ymatebwyr

yn anghytuno ac nid oedd 12% yn cytuno nac yn anghytuno. Atebodd 1% o'r ymatebwyr 'ddim yn gwybod'.

Roedd unigolion yn fwy tebygol o gytuno (71% o gymharu â 45% o sefydliadau). O ran unigolion, cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant oedd yn cytuno fwyaf (94%). Cytunodd 65% o nyrsys cofrestredig neu fydwragedd a 66% o addysgwyr.

Dywedodd yr ymatebwyr hynny a gytunodd ac a wnaeth sylwadau ei bod yn bwysig sicrhau amser dysgu wedi'i neilltuo ar leoliadau:

"Mae statws ychwanegol, er nad yw'n cael ei wireddu'n llawn yn ymarferol, yn hanfodol er mwyn diogelu cyfleoedd dysgu myfyrwyr. Mae'n dweud wrth aelodau eraill o staff "mae'r unigolyn hwn yma i ddysgu" fel datganiad o fwriad amlwg." (Addysgwr nyrsio)

Roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn enwedig yn debygol o gyfeirio at bwysigrwydd cael amser ychwanegol i ymgymryd â'u dysgu a rhoi arwydd i'r aelodau eraill o'r staff. Roeddent hefyd o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau nad oeddent yn colli cyfleoedd.

Mynegodd nifer o ymatebwyr gefnogaeth i statws ychwanegol ar sail diogelwch cleifion a dysgu effeithiol:

"Nid yw dysgu neu amser wedi'i neilltuo yn ddigon. Credwn fod unrhyw fygythiad i statws ychwanegol yn fygythiad i ddiogelwch cleifion yn ogystal â thanseilio dysgu cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant a'u gallu i ymarfer yn ddiogel pan fyddant yn cofrestru." (Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)

"Mae'r [sefydliad] yn cytuno bod dysgu seiliedig ar ymarfer yn hanfodol i gymdeithion nyrsio a fydd yn ymuno â'r gofrestr. Mae CQC hefyd yn cytuno bod yn rhaid rheoli hyn mewn ffordd sy'n ddiogel i bobl yn eu gofal, ac sy'n sicrhau bod cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn cael amser a chymorth i ddysgu pan fyddant ar leoliad. Lle maent yn ychwanegol at lefelau staffio mae'n rhaid i hyn fod yn glir ac ni ddylai'r sefyllfa hon gael ei pheryglu oherwydd adnoddau a lefelau staffio." (Rheoleiddiwr)

Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn na ddylai holl amser unrhyw leoliad fod yn amser ychwanegol. Mynegwyd pryderon ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol yr hyfforddiant a'r ffordd y byddai'n cyweddu â'r model prentisiaeth.

"Rydym wedi clywed gan gyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol ac yn ystod ein trafodaethau â chynrychiolwyr cyflogwyr eraill (h.y. cyflogwyr yn y GIG), fod hyn yn fygythiad mawr i lwyddiant datblygiad Cymdeithion Nyrsio. Gan fod bwriad i'r rhan fwyaf o gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant gael eu cyflogi, yn aml fel prentisiaid – mae cyflogwyr yn eu talu i ymgymryd â rôl a chael hyfforddiant yn y gweithle ar yr un pryd." (Llywodraeth neu gorff cyhoeddus)

“Yr adborth gan gyflogwyr yw na fyddent yn hyfforddi unrhyw gymdeithion nyrsio yn y dyfodol pe bai pob lleoliad â statws ychwanegol.” (Llywodraeth neu gorff cyhoeddus)

Codwyd pwyntiau tebyg gan yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno ac yn rhoi sylwadau. Roedd ganddynt bryder penodol na fyddai cyflogwyr yn gallu dod o hyd i'r gyllideb na'r staff i ôl-lenwi, gan arwain at lai o leoedd hyfforddiant i gymdeithion nyrsio.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr ddewisiadau amgen. Rydym yn ymdrin â hyn yn y cwestiwn canlynol.

Cwestiwn 8:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r NMC ganiatáu gwahanol ddehongliad o'r gofyniad ychwanegol o ystyried y modelau dysgu seiliedig ar waith (fel prentisiaethau) ar yr amod ei bod yn dal yn bosibl diogelu diogelwch cleifion ac addysgu myfyrwyr?

Cytunodd 62% o'r ymatebwyr y dylai'r NMC ganiatáu dehongliad gwahanol o'r gofyniad ychwanegol. Roedd 24% yn anghytuno, nid oedd 12% yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 2% 'ddim yn gwybod'.

Roedd unigolion (25%) yn fwy tebygol o anghytuno na sefydliadau (15%). Roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn fwy tebygol o beidio â chytuno nac anghytuno (25% o gymharu â 9% o nyrsys cofrestredig/bydwagedd a 12% o addysgwyr).

Roedd rhai o'r themâu a godwyd yn y sylwadau yn gyffredin i'r ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno. Roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd sicrhau amser dysgu wedi'i neilltuo yn ystod yr hyfforddiant a'r angen am fesurau diogelu i sicrhau diogelwch cleifion.

Gwnaeth llawer o'r rhai a oedd yn cytuno ailadrodd y pwyntiau a wnaed uchod. Er enghraifft, roedd rhai o'r farn y byddai cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn amhosibl eu fforddio oni bai bod model amgen i'r model statws ychwanegol. Dywedodd eraill y dylai lleoliadau y tu allan i'r cartref fod yn rhai â statws ychwanegol, ond y gellid ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith yn y cartref lle y gallant gael eu cynnwys yn y niferoedd.

Rhoddodd nifer o ymatebwyr enghreifftiau o ddehongliadau amgen. Er enghraifft:

- Gallai dysgu seiliedig ar waith weithio heb amser ychwanegol
- Gallai iaith 'statws ychwanegol' newid.
- Nid oedd angen i'r holl ddysgu a gynorthwyir yn y gweithle fod â statws ychwanegol, ac nid oedd dysgu ychwanegol bob amser o ansawdd uchel.

Cyflwynodd rhai rhanddeiliaid proffesiynol gynigion manwl ar gyfer modelau amgen.

Ein hymateb (i gwestiynau 7 a 8)

Cafodd y naill gynnig a'r llall gennym eu cefnogi gan y mwyafrif. Cytunodd 66% o'r ymatebwyr y dylai statws ychwanegol fod yn ofniad ar gyfer rhaglenni cymdeithion

nyrsio cyn cofrestru. Fodd bynnag, cytunodd 62% hefyd y dylai'r NMC ganiatáu dull amgen.

Fel rhan o'n hymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen gennym er mwyn ystyried sut y byddem yn neilltuo amser dysgu yn ymarferol. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o gyflogwyr, darparwyr addysg, HEE, cyflogwyr y GIG a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r grŵp hwn, datblygwyd model amgen ar gyfer sefydliadau addysg cymeradwy a'u partneriaid ymarfer. Mae hwn wedi'i gynnwys yn y fersiwn wedi'i diweddarau o'r *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru* (Safon 3.5, opsiwn B). Mae'r opsiwn hwn ar gael ar gyfer llwybrau dysgu seiliedig ar waith ac mae'n gofyn i ddarparwyr ddangos sut y byddant yn neilltuo cyfnod penodol o amser i'w dreulio yn dysgu mewn ymarfer. O'r amser a dreulir mewn lleoliadau ymarfer, dim ond amser dysgu wedi'i neilltuo a all gyfrif tuag at oriau rhaglen.

Gan weithio gyda'r grŵp gorchwyl a gorffen rydym wedi datblygu [gwybodaeth ategol am amser dysgu wedi'i neilltuo mewn ymarfer](#) sy'n cwmpasu rhyddhau myfyrwyr ar gyfer dysgu academiaidd a lleoliadau allanol. Mae hefyd yn rhoi enghreifftiau o'r gweithgareddau a allai gyfrannu at amser dysgu wedi'i neilltuo a'r hyn y byddwn am ei weld wrth gymeradwyo rhaglenni drwy Opsiwn B.

Byddwn yn gwerthuso effaith yr opsiwn hwn fel y gallwn fod yn sicr nad oes unrhyw oblygiadau anfwriadol o ran diogelwch cleifion, dysgu myfyrwyr na chyfle cyfartal.

Erys statws ychwanegol yn ofyniad ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru eraill. Byddwn yn adolygu'r gwersi a ddysgir o'n gwerthusiad maes o law er mwyn gweld a ellid mabwysiadu'r dull amser dysgu wedi'i neilltuo yn fwy cyffredinol heb beryglu diogelwch cleifion na dysgu myfyrwyr.

Lefel y cymhwysiad

Yn yr ymgynghoriad cynigiwyd y dylai rhaglenni cymdeithion nyrsio fod yn rhai gradd sylfaen yn seiliedig ar y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (Lloegr). Mae rhaglenni o'r fath yn ddwy flynedd o hyd fel arfer.

Roedd safleoedd prawf cymdeithion nyrsio HEE yn gallu dyfarnu unrhyw gymhwyster Lefel 5 yn Lloegr, ond ychydig iawn a ddewisodd ddyfarnu unrhyw beth heblaw gradd sylfaen.

Yn yr ymgynghoriad i weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid gofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno â'n dull gweithredu.

Cwestiwn 9:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r dyfarniad academiaidd sy'n gysylltiedig â rhaglenni cymdeithion nyrsio fod yn radd sylfaen?

Cytunodd pedwar o bob pum ymatebydd (80%) â'r cynnig. Dim ond 9% a oedd yn anghytuno, nid oedd 9% yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 1% 'ddim yn gwybod'. Roedd unigolion (11%) yn fwy tebygol o anghytuno na sefydliadau (4%).

Roedd y rhai a gytunodd â'r cynnig o'r farn mai gradd sylfaen oedd y safon briodol ac y byddai'r cyhoedd yn gyfarwydd â hi. Er enghraifft:

"Dylai hyn fod ar lefel Gradd Sylfaen er mwyn dangos y gofyniad academaidd i gymdeithion nyrsio, mae hyn yn rhoi cyfle iddynt gael safon addysg glir a theori yn sail i'w hymarfer clinigol." (Cyflogwr GIG)

O blith y lleiafrif bach a anghytunodd, dywedodd rhai fod ganddynt bryderon am gysylltu'r gair 'gradd' â'r cymhwyster hwn ac, yn eu barn nhw, dim ond i gymwysterau nyrsys cofrestredig y dylai fod yn gymwys. Dywedodd eraill y dylem ganiatáu unrhyw gymhwyster lefel 5, ac awgrymodd rhai Ddiploma.

Ein hymateb

Mae'r lefel uchel o gefnogaeth i ddyfarnu gradd sylfaen i gymdeithion nyrsio yn adlewyrchu'r dull a ffafriwyd ar safleoedd prawf cymdeithion nyrsio HEE. Fel y cyfryw, mae'r fersiwn derfynol o'r *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru* yn ei gwneud yn ofynnol i ddyfarnu gradd sylfaen.

Felly, bydd angen pwerau dyfarnu graddau ar sefydliadau sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth i redeg rhaglenni cymdeithion nyrsio, neu bydd angen iddynt gael mynediad at y pwerau hynny drwy sefydliad arall sy'n dyfarnu graddau sylfaen.

Oriau Rhaglenni

Nododd y *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru* fod yn rhaid i raglenni gynnwys o leiaf 2,300 o oriau rhaglen - hynny yw yr oriau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer dysgu, boed hynny mewn sefydliadau addysg neu leoliadau ymarfer.

Yn yr ymgynghoriad gofynnwyd am farn ymatebwyr ar y cynnig hwn.

Cwestiwn 10:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai rhaglenni cyn cofrestru cymdeithion nyrsio gynnwys o leiaf 2,300 o oriau dysgu theori ac ymarferol?

Cytunodd dros dri chwarter yr ymatebwyr (77%) â'r cynnig. Dim ond 9% a oedd yn anghytuno, nid oedd 11% yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 3% 'ddim yn gwybod'.

Roedd unigolion (80%) yn fwy tebygol o gytuno na sefydliadau (69%). Roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (37%) yn fwy tebygol o gytuno'n gryf na nyrsys cofrestredig a bydwagedd (24%) ac addysgwyr (21%).

Roedd y rhai a oedd yn cytuno ac yn rhoi sylwadau yn cydnabod pwysigrwydd oriau wedi'u neilltuo. Dywedwyd hefyd fod yn rhaid i'r gofyniad gael ei gymhwyso'n gyson ymhlith darparwyr a bod yn gyson â'r safonau ar gyfer nyrsys cofrestredig. Soniodd rhai y dylai dysgu seiliedig ar waith gyfrif tuag at yr oriau hyn, gan godi pryderon ynglŷn â'r cydweddoldeb â phrentisiaethau.

Roedd y rhai a oedd yn anghytuno ac yn rhoi sylwadau o'r farn y dylai dysgu seiliedig ar waith gyfrif tuag at yr oriau ac roeddent yn cysylltu hyn â dehongliadau o statws ychwanegol. Roedd eraill o'r farn y dylai'r gofyniad fod yn uwch neu'n fwy hyblyg. Er enghraifft:

"Hoffwn weld mwy o oriau yn cael eu cynnwys. Beth fydd yr hyfforddai yn ei wneud yn ystod y 1000 awr arall (fwy neu lai) o'u rhaglen os bydd yn para am ddwy flynedd (Addysgwr Cymdeithion Nyrsio)

Roedd nifer fach o'r farn bod 2,300 o oriau yn rhy uchel. Teimlai ychydig o ymatebwyr fod y gofyniad yn rhy anhyblyg ac y dylai fod modd i ddarparwyr hyfforddiant gyfrif dysgu a phrofiad blaenorol.

Roedd ychydig o ymatebwyr yn cwestiynu sut y byddai'r gofyniad yn gweithio'r gyda'r model prentisiaeth:

"Byddai 2,300 o oriau yn cyfateb i 30 wythnos y flwyddyn o amser dysgu wedi'i neilltuo a fyddai'n cyfateb i tua 68% o oriau wedi'u neilltuo prentis, na fyddai'n unol ag arfer presennol o ran prentisiaethau."
(Cyflogwr yn y GIG)

Gofynnodd rhai ymatebwyr, yn enwedig y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, am fwy o eglurder.

Ein hymateb

Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (77%) y dylai rhaglenni cyn cofrestru gynnwys o leiaf 2,300 o oriau o ddysgu theori ac ymarfer wedi'u neilltuo. Rydym yn fodlon mai dyma'r dull gweithredu priodol, o ystyried yr ymatebion a gafwyd ac er mwyn hwyluso'r broses o gamu ymlaen i nyrsio.

Yng ngoleuni'r sylwadau yn gofyn am fwy o eglurder, rydym wedi rhoi diffiniadau o 'oriau rhaglen' ac 'amser dysgu wedi'i neilltuo' yn y safonau diwygiedig. Rydym wedi nodi bod oriau rhaglen wedi'u neilltuo ar gyfer dysgu theori ac ymarfer. Ni fydd oriau nad ydynt wedi'u neilltuo ar gyfer dysgu, lle mae myfyrwyr yn gweithio yn eu gweithle parhaol i bob diben yn cyfrif tuag at oriau rhaglen.

Diffinnir amser dysgu wedi'i neilltuo fel amser dynodedig lle mae myfyrwyr yn cael cymorth i ddysgu. Mae statws ychwanegol yn un ffordd o neilltuo amser dysgu. Fel y nodir [uchod](#) mae'r *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru* bellach yn cynnwys opsiwn amgen ar gyfer amser dysgu wedi'i neilltuo. Mae hwn ar gael i fyfyrwyr sy'n hyfforddi drwy lwybrau dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys prentisiaethau.

Sylwadau cyffredinol

Yn olaf, gofynnwyd i ymatebwyr i'r ymgynghoriad i randdeiliaid am unrhyw sylwadau eraill ar y *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru*.

Cwestiwn 11:

A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynghylch y *Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru?*

Cafwyd 57 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Cyflwynwyd 34 gan unigolion a 22 gan sefydliadau (ni nododd un ymatebydd ym mha rinwedd roedd yn ymateb).

Gwnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y cwestiwn hwn fanteisio ar y cyfle i ailadrodd pwyntiau a wnaed yn gynharach yn yr ymgynghoriad. Rydym wedi ymdrin â'r rhain yn fanylach yn yr adrannau perthnasol uchod. Ymhlith y themâu roedd rhagor o awgrymiadau ynglŷn â sut i wella'r cwrs hyfforddiant, sylwadau yn gofyn am fwy o eglurder o ran y berthynas rhwng rôl cymdeithion nyrsio a nyrsys cofrestredig a chwestiynau am derminoleg.

Roedd rhai sylwadau yn mynegi safbwyntiau mwy cyffredinol ar reoleiddio cymdeithion nyrsio. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ein proses o fonitro hyfforddiant, cyfathrebu ynglŷn â'r rôl a thiworiaeth. Awgrymwyd rhai cymwysterau a phrofiad blaenorol ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cymdeithion nyrsio hefyd. Mynegodd rhai bryderon hefyd am gyflwyno cymdeithion nyrsio.

Ein hymateb

Rydym yn croesawu mewnbwn gan ymatebwyr ac wedi ystyried eu hawgrymiadau. Fel y nodwyd uchod, roedd llawer o'r themâu a godwyd yn ailadrodd pwyntiau a wnaed yn gynharach yn yr ymgynghoriad. Rydym wedi ymdrin â'r rhain yn yr adrannau perthnasol.

Mae sylwadau ynglŷn â rôl ehangach cymdeithion nyrsio a'r penderfyniad i gyflwyno'r rôl y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn ac felly nid ydym wedi ymdrin â nhw yma.

Ymuno â'n cofrestr

Rydym yn cadw cofrestr o'r bobl sydd wedi cymhwyso ac sy'n gymwys i ymarfer fel nyrs neu fydwraig yn y DU. Byddwn yn agor rhan newydd o'n cofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio ar 28 Ionawr 2019.

Nodir ein pwerau cofrestru yn ein deddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o'n gofynion sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Cofrestru cychwynnol a llwybrau cofrestru (o'r DU, UE/AEE a gwledydd nad ydynt yn yr UE/AEE);
- Aildderbyn ar y gofrestr yn dilyn cyfnod di-rym;
- Aildderbyn ar y gofrestr yn dilyn sancsiwn addasrwydd i ymarfer;
- Dychwelyd i ymarfer
- Gadael y gofrestr
- Ffioedd adnewyddu cofrestriad, gan gynnwys [aiddilysu](#)

Roedd ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymdrin â'r newidiadau angenrheidiol i'n deddfwriaeth er mwyn cymhwyso'r pwerau a'r prosesau hyn at gymdeithion nyrsio. Cyhoeddodd yr Adran ei hymateb i'r ymgynghoriad ym mis Ebrill 2018 a gwnaed y newidiadau i'n deddfwriaeth ym mis Gorffennaf 2018 (ond ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn gymwys tan fis Ionawr 2019).

Yn yr ymgynghoriad hwn, gofynnwyd am sylwadau ar ein gofynion iaith Saesneg, gan nad oedd hyn yn rhan o ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cynigiwyd y dylai'r gofynion ar gyfer cymdeithion nyrsio fod yr un fath â'r rhai ar gyfer nyrsys a bydwagedd.

Mae ein deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos y rhuglder angenrheidiol yn Saesneg. Gallant wneud hyn drwy'r canlynol:

- Astudio rhaglen nyrsio neu fydwreigiaeth cyn cofrestru diweddar a addysgwyd ac a arholwyd yn Saesneg
- Ennill y sgôr gofynnol o 7.0 o leiaf yn y System Brofi Iaith Saesneg Ryngwladol (IELTS) neu o leiaf sgôr o B yn y Prawf Saesneg Galwedigaethol (OET)
- Cofrestru â rheoleiddiwr nyrsio neu fydwreigiaeth ac un flwyddyn o ymarfer mewn gwlad lle mai Saesneg yw'r iaith gyntaf a'r iaith frodorol a lle y bu'n rhaid cyflawni asesiad iaith ar gyfer cofrestru.

Gofynnwyd un cwestiwn ar hyn yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid a gweithwyr proffesiynol.

Yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid

Cwestiwn 1:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai ein gofynion iaith Saesneg ar gyfer cymdeithion nyrsio fod yr un peth â'r rhai ar gyfer nyrsys a bydwagedd?

Cytunodd 93% o'r ymatebwyr y dylai'r gofynion iaith Saesneg fod yr un peth ar gyfer cymdeithion nyrsio, nyrsys a bydwagedd. Dim ond 5% o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno, nid oedd 1% yn cytuno nac yn anghytuno.⁴

Cafwyd yr un lefelau o gytundeb cyffredinol rhwng unigolion a sefydliadau. Roedd unigolion (67%) yn fwy tebygol o gytuno'n gryf na sefydliadau (55%). Roedd nyrsys cofrestredig/bydwagedd (7%) yn fwy tebygol o anghytuno neu anghytuno'n gryf na chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (1%).

O blith yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno ac yn rhoi rheswm dros eu hateb, y thema amlycaf yn eu sylwadau oedd y dylai safonau fod yn gyson rhwng pob proffesiwn nyrsio am y rhesymau canlynol:

- Dylai'r safonau fod yn gymwys i bob gweithiwr proffesiynol ar gofrestr yr NMC
- Bydd cysondeb mewn gofynion yn hwyluso'r broses o gamu ymlaen i nyrsio i gymdeithion nyrsio sydd am ddod yn nyrsys cofrestredig
- Bydd gan gleifion yr un disgwyliadau o bob aelod o staff sy'n rhoi gofal iddynt.
- Mae cyfathrebu yn un o sgiliau sylfaenol nyrsio ac mae cyswllt anorfod rhwng y sgil hon a diogelwch cleifion.
- Mae Saesneg gwael yn un o brif gwynion cleifion.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r sylwadau roedd

*"Mae sgiliau cyfathrebu yn hollbwysig yn y proffesiwn, fel y dengys y safonau. Bydd derbyn cymhwysedd iaith Saesneg sy'n is na'r safon yn effeithio ar gyfathrebu, ac fel y cyfryw, safonau gofal a lles cleifion."
(Cydymaith nyrsio dan hyfforddiant)*

*"Mae hyn yn ofyniad i gofrestru â'r NMC ac felly dylai fod yn ofyniad i bawb sydd am gofrestru â'r NMC, ni waeth pa gwrs y maent yn ei ddilyn. Mae'n sicrwydd y mae'r NMC yn ei roi i'r cyhoedd bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau eu diogelwch."
(Llywodraeth neu gorff cyhoeddus)*

Dim ond 5% o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno. Roedd y rhai a roddodd reswm dros eu hateb yn pryderu'n bennaf am y dull asesu a'r lefelau angenrheidiol.

⁴ Noder: nid yw'r ffigur hwn yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

Roedd rhai ymatebwyr (gan gynnwys rhai a oedd yn cytuno) yn cwestiynu lefel y Saesneg roedd ei hangen, gan nodi eu bod yn teimlo bod 7.0 IELTS yn rhy uchel. Roedd rhai o'r farn nad oedd yn adlewyrchu lefelau Saesneg yn y gweithlu presennol (gan gynnwys siaradwyr Saesneg brodorol), Roedd eraill yn teimlo nad oedd yn cydweddu â rôl ddisgwyliedig cymdeithion nyrsio (yn enwedig o ran Saesneg ysgrifenedig).

Amlygodd rhai o'r sylwadau gamddealltwriaeth:

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd IELTS yn briodol ac mai'r OET fyddai'r dewis gorau (er eu bod yn cydnabod ei fod yn fwy costus). Er enghraifft:

“Mae llawer sydd wedi sefyll IELTS wedi methu er mai Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae angen ailystyried y meini prawf marcio neu ddefnyddio'r Prawf Saesneg Galwedigaethol ar gyfer y sector gofal iechyd.” (Nyrs gofrestredig)

Fel y nodwyd uchod, cynigiwyd y dylid derbyn prawf IELTS a phrawf OET ar gyfer cymdeithion nyrsio, fel y gwnawn ar hyn o bryd ar gyfer nyrsys a bydwagedd. Credwn mai'r ymgeisydd ddylai benderfynu pa brawf sydd fwyaf priodol iddynt.

- Roedd rhai o'r ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno yn teimlo y dylai cwblhau rhaglen i gymdeithion nyrsio fod yn ddigon i ddangos sgiliau iaith Saesneg i'r lefel ofynnol. Fel y nodwyd uchod, mae astudio rhaglen cyn cofrestru yn Saesneg yn cyfrif fel tystiolaeth ddigonol i ddangos y rhuglder angenrheidiol yn Saesneg.

Bu gwahaniaeth barn o ran pryd y dylid dangos rhuglder yn Saesneg. Roedd rhai yn dadlau y dylai fod yn ofyniad i ymuno â rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru. Nododd eraill y dylid caniatáu i gymdeithion nyrsio gyrraedd lefel 7 erbyn diwedd y rhaglen.

Ein hymateb

Rydym yn croesawu'r ymateb cadarnhaol i'r cynnig hwn. O ystyried bod dros 90% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r gofynion iaith Saesneg fod yr un fath, bwriadwn weithredu ar ein cynnig i gymhwyso'r un gofynion at gymdeithion nyrsio.

Rydym yn cydnabod bod lleiafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod y lefel ofynnol o sgiliau Saesneg yn rhy uchel. Gan adeiladu ar y newidiadau i'r polisi iaith Saesneg a wnaed ym mis Tachwedd 2017, rydym yn parhau i adolygu ein gofynion iaith Saesneg. Mae hyn yn cynnwys ystyried rhagor o opsiynau i ymgeiswyr roi tystiolaeth o'u gallu yn Saesneg ac adolygu ein gwybodaeth a'n cymorth i ymgeiswyr. Mewn ymateb i bryderon a godwyd bod trefniadau profi IELTS yn rhy lym, nodwyd ym mis Gorffennaf 2017 ein bod wedi cynnal ymarfer 'cloriannu' cychwynnol ar y trefniadau presennol. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth gymhellol nad oedd IELTS yn addas at y diben na bod y lefel cymhwysedd a oedd yn ofynnol wedi cael ei phennu'n rhy uchel. Byddwn yn parhau i adolygu hyn ac yn bwydo'r sylwadau a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn i mewn.

Nodwn fod rhai ymatebwyr wedi gwneud sylwadau o ran pryd y dylid dangos rhuglder yn Saesneg. At ein dibenion ni, rydym yn gofyn am sgiliau Saesneg ar adeg cofrestru. Rydym hefyd yn gofyn i sefydliadau addysg cymeradwy gadarnhau y gall myfyrwyr ddangos eu bod yn ddigon rhugl yn Saesneg ar adeg ymuno â rhaglen. Rydym yn rhoi'r hyblygrwydd i sefydliadau addysg cymeradwy benderfynu ar y camau sydd eu hangen i sicrhau y bydd myfyrwyr, ar ôl cymhwyso, yn bodloni ein gofyniad iaith Saesneg i gofrestru. Bydd angen i'r darparwyr addysg hynny sy'n defnyddio'r safon prentisiaeth ystyried ei gofynion o ran llythrennedd a rhifedd.

Ailddilysu

Ailddilysu yw'r broses lle mae pobl sydd ar ein cofrestr yn dangos eu bod yn parhau i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae nyrsys a bydwagedd yn ailddilysu bob tair blynedd er mwyn adnewyddu eu cofrestriad.

Caiff nifer o'r gofynion ailddilysu eu nodi yn ein deddfwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad i ymarfer am o leiaf 450 awr ar gyfer pob cofrestriad sydd gan unigolyn, cyflwyno datganiadau iechyd a chymeriad a diweddarau eu datganiad trefniant indemniad proffesiynol. Yn dilyn ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae newidiadau i'n deddfwriaeth yn cymhwyso'r gofynion hyn at gymdeithion nyrsio.

Yn ein hymgynghoriad, gofynnwyd am sylwadau ar yr elfennau o ailddilysu nad ydynt wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Cynigiwyd y dylai'r gofynion ailddilysu ar gyfer cymdeithion nyrsio fod yr un fath â'r rhai ar gyfer nyrsys a bydwagedd.

Gofynnwyd un cwestiwn am ailddilysu yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid a gweithwyr proffesiynol ac un yn yr ymgynghoriad i'r cyhoedd.

Yr ymgynghoriad i randdeiliaid

Cwestiwn 1:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r gofynion ailddilysu canlynol ar gyfer nyrsys a bydwagedd fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio?

- **Cwblhau o leiaf 35 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP), gydag 20 awr ohonynt yn gyfranogol**
- **Casglu pum darn o adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer**
- **Ysgrifennu pum cyfrif dysgu myfyriol**
- **Cynnal trafodaeth fyfyrion gydag unigolyn cofrestredig arall ynglŷn â'u cyfrifon myfyriol**
- **Rhoi manylion rhywun sydd wedi cadarnhau eu datganiadau ailddilysu.**

Gofynnodd y cwestiwn p'un a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno â chymhwyso pob un o'r pum gofyniad at gymdeithion nyrsio. Cafwyd cryn gytundeb, yn amrywio o rhwng 90% a 95% ar gyfer y pum gofyniad. 'Rhoi manylion rhywun sydd wedi cadarnhau eu datganiadau ailddilysu' a gafodd y gefnogaeth fwyaf ac 'Ysgrifennu pum cyfrif dysgu myfyriol' gafodd y gefnogaeth leiaf, ond roedd 91% o'r ymatebwyr yn dal i gytuno â hyn. Roedd anghytuno cyffredinol â'r cwestiwn hwn yn amrywio o rhwng 2% a 3%.

Ar gyfer pob gofyniad, roedd mwy o gytundeb ymhlith sefydliadau nag unigolion a mwy o gytundeb ymhlith nyrsys cofrestredig/bydwagedd na chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant.

O blith yr ymatebwyr hynny a roddodd sylwadau, y thema amlycaf oedd y dylai'r gofynion ailddilysu fod yr un fath i bob gweithiwr proffesiynol ar y gofrestr.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo mai nyrsys cofrestredig/bydwagedd ddylai weithredu fel y cadarnhâwr a/neu'r unigolyn cofrestredig arall yn y drafodaeth fyfyrion. Fodd bynnag, roedd nifer lai o ymatebwyr yn teimlo i'r gwrthwyneb. Roedd rhai yn teimlo mai nyrsys cofrestredig ddylai gyflawni'r rolau hyn nes bod cymdeithion nyrsio wedi ymsefydlu. Gofynnodd nifer o ymatebwyr i ni roi eglurder ar hyn mewn canllawiau.

Anghytunodd nifer fach o ymatebwyr ag egwyddor ailddilysu i gymdeithion nyrsio. Rhoddwyd y rhesymau canlynol:

- Nid oeddent yn cefnogi ein dull o ailddilysu ac felly nid oeddent yn credu y dylai fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio na nyrsys a bydwagedd
- Codwyd materion a oedd yn ymwneud ag adnoddau o ran cyflawni gofynion ailddilysu, yn enwedig o ran niferoedd staffio a chyllidebau
- Anghytunwyd â'r syniad o gyflwyno gofynion ailddilysu yn syth ac awgrymwyd y dylid eu cyflwyno dros amser neu yn y dyfodol.

Roedd rhai yn cytuno â'r elfennau ailddilysu ond yn anghytuno â manylion y gofynion. Er enghraifft, mae rhai ymatebwyr wedi awgrymu llai o oriau DPP, llai o gyfrifon dysgu myfyriol a/neu lai o ddarnau o adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer.

Yr ymgynghoriad i'r cyhoedd

Yn yr ymgynghoriad i'r cyhoedd, gofynnwyd y cwestiwn canlynol ar ailddilysu:

Rydyn ni'n credu ei bod yn bwysig i nyrsys a bydwagedd sicrhau bod eu hymarfer yn gwbl gyfredol. Un ffordd o gadarnhau hyn yw drwy ofyn iddynt fyfyrion ar eu hymarfer, casglu adborth a thrafod eu myfyrdodau gyda chydweithiwr. Ydych chi'n meddwl y dylai cymdeithion nyrsio wneud yr un peth?

Cytunodd 90% o'r ymatebwyr y dylid gofyn i gymdeithion nyrsio hefyd fyfyrion ar eu hymarfer yn yr un ffordd â nyrsys a bydwagedd. Roedd 8% o'r ymatebwyr yn anghytuno ac atebodd 2% 'ddim yn gwybod'.

Roedd y rhai a oedd yn cefnogi ymarfer myfyriol yn teimlo ei fod yn elfen werthfawr o'r broses ddysgu a fyddai'n helpu cymdeithion nyrsio i gyflawni eu rôl unigol a'u rôl o fewn y tîm nyrsio ehangach yn well. Nododd sawl un y byddai angen iddo fod yn gymesur â rôl cydymaith nyrsio.

Roedd y lleiafrif a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn yn teimlo y gallai'r system fod yn feichus ac yn annymunol yn y pen draw i ddarpar gymdeithion nyrsio.

Ein hymateb

Mae'n amlwg o'r ymgynghoriad i randdeiliaid a'r ymgynghoriad i'r cyhoedd fod cefnogaeth gref o blaid cymhwyso'r gofynion ailddilysu presennol at gymdeithion nyrsio (90-95% o randdeiliaid yn cytuno a 90% o'r cyhoedd yn cytuno).

Cyflwynwyd y gofynion ailddilysu i nyrsys a bydwagedd ym mis Ebrill 2016. Mae'r sylwadau cadarnhaol yn yr ymgynghoriad yn adlewyrchu'r adborth cadarnhaol rydym wedi'i gael gan nyrsys a bydwagedd am eu profiad o ailddilysu hyd yma. Felly, rydym yn teimlo y bydd hyn yn brofiad buddiol i gymdeithion nyrsio ac y bydd yn eu helpu i sicrhau bod eu hymarfer yn gyfredol.

Awgrymodd nifer fach o'r ymatebwyr na ddylid caniatáu i gymdeithion nyrsio weithredu fel cadarnhäwr neu bartner mewn trafodaeth fyfyrion, o leiaf nes bod cymdeithion nyrsio wedi ymsefydlu mwy fel proffesiwn.

Ar hyn o bryd, rydym yn gofyn i nyrsys a bydwagedd gynnal trafodaeth fyfyrion gyda nyrs gofrestrig neu fydwraig arall. Nid ydym yn pennu unrhyw ofynion o ran lefel swydd na phrofiad y partner yn y trafodaeth fyfyrion ac ni chredwn fod angen gwneud hynny mewn perthynas â chymdeithion nyrsio. Cefnogwyd hyn gan y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd yn teimlo y dylai'r gofynion fod yr un fath.

O ran nyrsys a bydwagedd, nid ydym yn nodi pwy ddylai fod yn gadarnhäwr, ond rydym yn argymhell yn gryf mai rheolwr llinell yr unigolyn ddylai weithredu fel cadarnhäwr. Nid oes rhaid i'r unigolyn hwnnw fod wedi'i gofrestru â ni. Os nad oes gan unigolyn reolwr llinell, rydym yn argymhell mai unigolyn sydd wedi'i gofrestru â ni ddylai weithredu fel y cadarnhäwr. Yn niffyg hynny, rydym yn argymhell gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall sydd wedi'i reoleiddio yn y DU (er enghraifft meddyg). Byddai'r argymhellion hyn hefyd yn gymwys i gymdeithion nyrsio ac nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y dylem newid y dull gweithredu hwn. Fodd bynnag, tra bydd niferoedd cymdeithion nyrsio yn gymharol isel, rydym yn rhagweld y bydd llawer yn troi at eraill i fod yn gadarnhawyr.

Awgrymodd nifer fach o'r ymatebwyr ddiwygiadau ar gyfer cymdeithion nyrsio hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys llai o oriau DPP, llai o gyfrifon dysgu myfyrion a/neu lai o ddarnau o adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer. Nodwn y sylwadau hyn ond nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth ategol a fyddai'n awgrymu y dylem newid ein dull gweithredu ar gyfer cymdeithion nyrsio.

Bu cryn gefnogaeth i'r cynigion a oedd yn ymwneud ag ailddilysu. Felly, credwn o hyd mai dyma'r dull gweithredu cywir. Proses gymharol newydd yw ailddilysu a byddwn yn monitro'r ffordd y mae'n cael ei rhoi ar waith ym mhob proffesiwn a reoleiddir gennym, gan gynnwys cymdeithion nyrsio.

Addasrwydd i ymarfer

Mae ein deddfwriaeth yn rhoi'r pwerau i ni ymchwilio i bryderon ynglŷn ag ymddygiad neu ymarfer nyrs neu fydwraig. Os gwelwn fod addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer yn ddiffygiol gallwn roi sancsiwn er mwyn diogelu'r cyhoedd neu gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau. Yn yr achosion mwyaf difrifol, gall enw nyrs neu fydwraig gael ei dynnu oddi ar ein cofrestr.

Ymgynghorodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ymestyn y pwerau hyn i gymdeithion nyrsio, a newidiwyd ein deddfwriaeth ym mis Gorffennaf 2018 er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd (er na fydd y newidiadau hyn yn dod yn weithredol tan 28 Ionawr 2019 pan fydd y rhan o'n cofrestr sy'n ymwneud â chymdeithion nyrsio yn agor).

Yn yr ymgynghoriad, nodwyd y byddai pob un o'n polisïau a'n gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer ar gyfer nyrsys a bydwagedd yn cael eu hystyried i fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio. Gofynnwyd am sylwadau ar effaith gweithredu yn y modd hwn.

Trosolwg o'r ymatebion

Cwestiwn 1:

A oes unrhyw oblygiadau i ymestyn ein dull addasrwydd i ymarfer i gymdeithion nyrsio y dylai'r NMC eu hystyried, yn eich barn chi?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (69%) yn teimlo nad oedd unrhyw oblygiadau amlwg i ymestyn y dull addasrwydd i ymarfer i gymdeithion nyrsio. Teimlai 18% o'r ymatebwyr fod yna oblygiadau, ac atebodd 13% 'ddim yn gwybod'. Roedd nyrsys cofrestredig/bydwagedd (20%) ac addysgwyr nyrsio (23%) yn fwy tebygol o gredu bod goblygiadau na chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (6%).

Dywedodd yr ymatebwyr hynny a deimlai nad oedd unrhyw oblygiadau y dylai'r safonau fod yn gyson i bob gweithwyr proffesiynol a bod hyn yn hanfodol er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Ymhlith y lleiafrif a oedd yn teimlo bod yna oblygiadau, y themâu mwyaf cyffredin a godwyd yn y sylwadau oedd:

- pryder ynglŷn â'r llwyth achos cynyddol i baneli addasrwydd i ymarfer yr NMC
- pryder am yr effaith ar adnoddau, amseroedd aros ar gyfer gwrandawiadau ac atgyfeiriadau.
- cwestiynau am gynnwys cymdeithion nyrsio ar baneli addasrwydd i ymarfer.

Gofynnodd nifer fach o ymatebwyr (7) am fwy o eglurder ynglŷn ag atebolrwydd a dirprwyo. Nododd yr ymatebwyr hyn y gall cymdeithion nyrsio fod yn destun achos o addasrwydd i ymarfer er eu bod yn cyflawni gweithgarwch dirprwyedig. Dywedwyd hefyd fod angen i nyrsys cofrestredig a bydwagedd wybod beth yw eu hatebolrwydd mewn perthynas â dirprwyo i gymdeithion nyrsio, ac unrhyw faterion o ran atebolrwydd pan fydd cymdeithion nyrsio yn destun achos o addasrwydd i ymarfer.

Mynegodd dau randdeiliad bryderon ynglŷn â chymhwysu'r broses addaswydd i ymarfer at gymdeithion nyrsio. Roeddent yn poeni y gallai gael effaith anghymesur ar gymdeithion nyrsio, yn enwedig y rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig:

“Y prif bryder sydd gennym ynglŷn â defnyddio'r un prosesau ag a ddefnyddir ar gyfer nyrsys mewn achosion o addaswydd i ymarfer yw y gallai hyn fod yn anghymesur.” (Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)

“Mae problemau mawr eisoes o ran y nifer anghymesur o nyrsys a bydwagedd duon y rhoddir gwybod amdanynt i'r NMC. Mae UNSAIN yn pryderu'n fawr y bydd ein haelodau sy'n gymdeithion nyrsio yn wynebu'r un profiad.” (Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur)

Ein hymateb

Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (69%) yn rhagweld y byddai unrhyw oblygiadau penodol i gymhwysu ein proses addaswydd i ymarfer at gymdeithion nyrsio. Rydym yn fodlon mai dyma'r dull gweithredu cywir.

Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau am ein paratodau i reoli pryderon addaswydd i ymarfer sy'n ymwneud â chymdeithion nyrsio ac effaith hynny ar ein hadnoddau a'n hamseroedd aros. Rydym wedi mynd ati i baratoi staff yn ein cyfarwyddiaeth Addaswydd i Ymarfer er mwyn iddynt fod yn barod i ymdrin ag unrhyw bryderon ynglŷn â chymdeithion nyrsio.

Rydym hefyd wedi lansio [cyfeiriad strategol newydd ar gyfer addaswydd i ymarfer](#) yn ddiweddar, yr ymgynghorwyd arno rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2018. Bydd hwn yn ein helpu i ddiogelu'r cyhoedd mewn ffordd fwy effeithiol, cymesur a chyson. Bydd yr egwyddorion yn y strategaeth hon hefyd yn gymwys i gymdeithion nyrsio.

Mae ein Cod yn ei gwneud yn ofynnol i bawb ar ein cofrestr fod yn atebol am eu penderfyniadau i ddirprwyo tasgau a dyletswyddau i bobl eraill. Mae hefyd yn nodi sut i gyflawni hyn. Yn benodol, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion ond ddirprwyo tasgau a dyletswyddau sydd o fewn cwrpas cymhwysedd y person arall. Fel y cyfryw, byddai nyrsys cofrestredig yn atebol am eu penderfyniadau i ddirprwyo tasgau a dyletswyddau i gymdeithion nyrsio yn yr un ffordd ag y maent eisoes yn atebol am eu penderfyniadau i ddirprwyo i unigolion eraill.

Cododd rhai ymatebwyr bryderon am yr effaith ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Fel y cydnabyddwn yn ein cyfeiriad strategol newydd, mae ymchwil wedi dangos bod pobl ar ein cofrestr o'r tu allan i'r UE ac o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli mewn achosion o addaswydd i ymarfer. Mae hyn yn deillio o atgyfeiriadau anghymesur gan gyflogwyr. Mae hyn yn destun pryder mewn rhannau eraill o'r sector rheoleiddio. Rydym yn ymwybodol o'r problemau hyn, ac rydym am i'r ffordd rydym yn rheoleiddio helpu i'w datrys. Dyna pam rydym wedi nodi '*diwylliant proffesiynol sy'n rhoi gwerth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac sy'n blaenoriaethu bod yn agored a dysgu er mwyn diogelu cleifion*' fel un o'r prif ganlyniadau rheoleiddiol a ddymunir gennym o addaswydd i ymarfer. Fel y dangosir [isod](#), roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn cael effaith gadarnhaol ar y nodweddion gwarchoddedig neu ddim effaith o gwbl.

Sylwadau eraill ar reoleiddio cymdeithion nyrsio

Gwnaeth yr ymgynghoriad i'r cyhoedd y datganiad terfynol canlynol:

Os oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am reoleiddio cymdeithion nyrsio, rhowch wybod i ni.

Ymatebodd 55 o bobl, 23 fel aelodau o'r cyhoedd a 27 fel gweithwyr proffesiynol neu fyfyrwyr (ni nododd pum unigolyn ym mha rinwedd roeddent yn ymateb).

Rhannodd ymatebwyr eu sylwadau cyffredinol am rôl y cydymaith nyrsio, yn hytrach na rheoleiddio cymdeithion nyrsio. Roedd y sylwadau cyffredinol hyn yn cynnwys y canlynol:

- sylwadau am y tebygolrwydd rhwng cymdeithion nyrsio a'r hen rôl nyrs restredig gan y wladwriaeth (SEN)
- pryderon y bydd cymdeithion nyrsio yn disodli nyrsys cofrestredig
- galwadau am fwy o gyllid i dalu am nyrsys cofrestredig
- ymholiadau ynglŷn â ffi'r NMC ar gyfer cymdeithion nyrsio

Tynnodd yr ymatebwyr hynny a wnaeth sylwadau mwy penodol sylw at bryderon ynglŷn ag atebolrwydd y rôl a'r gwahaniaeth rhwng nyrs gofrestrdig a chydymaith nyrsio. Dywedwyd hefyd fod angen llwybr datblygu clir.

Ein hymateb

Roedd nifer o'r sylwadau cyffredinol yn ymwneud â materion nad oeddent yn rhan o'n cylch gwaith ac felly nad ymgynghorwyd arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys cyllido a defnyddio nyrsys cofrestredig a chymdeithion nyrsio.

Gofynnodd rhai ymatebwyr gwestiynau am y ffi i gymdeithion nyrsio. Gwnaethom ymgynghori ar y ffioedd arfaethedig rhwng 4 Rhagfyr 2017 a 26 Chwefror 2018. Cytunodd y Cyngor ar y ffioedd yn ei gyfarfod ym mis Medi 2018. Gallwch ddarllen ein hymateb i'r ymgynghoriad [yma](#).

Roedd y sylwadau eraill a wnaed mewn ymateb i'r adran hon yn adlewyrchu themâu megis atebolrwydd a'r broses o gamu ymlaen. Rydym wedi ymdrin â'r rhain yn fanylach yn yr adrannau perthnasol uchod.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Yn yr ymgynghoriad gofynnwyd i ymatebwyr ystyried a oedd y newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau ar bobl sy'n rhannu nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gofynnwyd hefyd am sylwadau ar y ffordd y gellid diwygio'r cynigion i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau.

Cwestiwn 1: A fydd unrhyw un o'r cynigion hyn yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig hyn (gan gynnwys cymdeithion nyrsio, nyrsys, bydwagedd, cleifion a'r cyhoedd)?

Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr (76%) y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig, neu ddim effaith o gwbl. Dim ond 5% o'r ymatebwyr a ragwelodd effaith negyddol ac atebodd 19% 'ddim yn gwybod'.

Roedd sefydliadau (53%) yn fwy tebygol o ddweud na fyddai effaith nag unigolion (37%). Roedd nyrsys cofrestredig/bydwagedd (44%) ac addysgwyr (44%) yn fwy tebygol o ddweud na fyddai effaith na chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (23%). Roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (52%) yn fwy tebygol o ddweud y byddai effaith gadarnhaol na nyrsys cofrestredig/bydwagedd (33%) ac addysgwyr (39%).

Dywedodd yr ymatebwyr hynny a oedd yn teimlo y byddai effeithiau cadarnhaol neu ddim effeithiau o gwbl ac a nododd farn, y byddai rôl y cydymaith nyrsio yn ehangu cyfranogiad i grŵp ehangach o bobl. Mynegodd rhai ymatebwyr gefnogaeth dros ffocws ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd eraill hefyd yn galw am i'r nodweddion gwarchodedig gael eu monitro'n gadarn er mwyn deall effaith y rôl ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Dim ond 13 o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo bod effeithiau negyddol. Roedd y rhai a wnaeth sylwadau yn pryderu am atgyfnerthu tuedd menywod i lenwi rolau â chyflog is, ac am gyfyngu ar fynediad i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (drwy'r gofynion iaith Saesneg a chydabod cofrestriadau tramor). Cafwyd rhai sylwadau hefyd ynglŷn â'r effaith ar y rhai ag anabledau, yn enwedig o ran y gofyniad yn y safonau sy'n ymwneud â ffitrwydd a lles personol.

Ein hymateb

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig, neu dim effaith o gwbl.

Nid ydym yn pennu'r cyflog ar gyfer cymdeithion nyrsio na'r proffesiynau eraill a reoleiddir gennym. Mater i'w cyflogwyr a'r GIG yw'r cyflogau a ddyfernir i gymdeithion nyrsio a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Felly, er bod y sylwadau am fenywod mewn rolau â chyflog is y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, unwaith y bydd y proffesiwn cymdeithion nyrsio wedi ymsefydlu, byddwn yn gallu rhoi data ar y cydbwysedd rhwng y rhywiau fel rhan o'n hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Nodwn y sylwadau a wnaed am ein gofynion iaith Saesneg a'r effaith y bydd y rhain yn ei chael o bosibl ar bobl o leiafrifoedd ethnig. Rydym wrthi'n adolygu ein gofynion iaith Saesneg er mwyn gwerthuso mathau posibl eraill o dystiolaeth, datblygu cymorth ychwanegol i ymgeiswyr ac archwilio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y prawf IELTS. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys cymdeithion nyrsio.

Mae cydnabod cofrestriadau tramor yn broses a nodwyd yn ein deddfwriaeth a bu'n rhan o ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar reoleiddio cymdeithion nyrsio. Rydym wrthi'n adolygu ein dull gweithredu mewn perthynas â'r broses o wneud cais o dramor er mwyn sicrhau ei bod yn syml ac yn gost-effeithiol i'n hymgeiswyr o dramor, ac yn cynnal rheolaethau cadarn i sicrhau diogelwch y cyhoedd ar yr un pryd. Mae cymdeithion nyrsio yn rhan o'r adolygiad hwn.

Rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed am ein gofyniad yn y safonau ar gymdeithion nyrsio i 'ddeall y cyfrifoldeb proffesiynol i fabwysiadu ffordd o fyw iach er mwyn cynnal lefel ffitrwydd a lles sydd ei hangen er mwyn diwallu anghenion pobl o ran gofal meddwl a chorfforol' (Llwyfan 1: Bod yn weithiwr proffesiynol atebol). Mae'r safon hon hefyd yn ymddangos yn y *Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig*.

Mae ein deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni fodloni ein hunain bod pobl yn ddigon iach i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae hyn yn rhan o'n dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd. Yn ein [canllawiau](#) rydym wedi diffinio 'iechyd da' i olygu y gall yr ymgeisydd ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol naill ai gyda neu heb addasiadau rhesymol. Nid yw'n golygu nad oes ganddynt gyflwr iechyd/anabledd. Rydym wrthi'n adolygu ein canllawiau ar Iechyd a Chymeriad a bydd y newidiadau yn gymwys i bob ymgeisydd ac unigolyn ar ein cofrestr.

Ers yr ymgynghoriad, rydym wedi datblygu dull amgen o neilltuo amser dysgu mewn ymarfer (gweler [uchod](#)). Un o'r pethau y byddwn yn ei gynnwys yn ein gwerthusiad yw p'un a yw'n arwain at unrhyw effaith andwyol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

Cwestiwn 2:

Sut gallwn ni ddiwygio'r cynigion hyn i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i feithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau?

Cafwyd 103 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, 64 gan unigolion a 38 gan sefydliadau. Daeth y prif themâu canlynol i'r amlwg yn y sylwadau:

- Sicrhau bod dealltwriaeth dda o'r gwahaniaeth rhwng rolau nyrsio, a bod rôl y cydymaith nyrsio yn cael ei gwerthfawrogi yn ei rhinwedd ei hun (gweler yr ymateb [uchod](#))
- Adolygu gofynion cyn dysgu megis paratoi academiaidd a gofynion iaith Saesneg er mwyn gwella hygyrchedd i'r rhai hynny o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Awgrymiadau ynglŷn â sicrhau bod prosesau recriwtio yn deg ac nad ydynt yn rhoi pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan anfantais.

- Ystyried dileu'r gofyniad ynglŷn â ffitrwydd a lles yn y Safonau hyfedredd (gweler ein hymateb i gwestiwn 1 uchod)
- Ystyried newid gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer i'w gwneud yn fwy hygyrch ac yn decach i gymdeithion nyrsio a all fod yn llai tebygol o gael cynrychiolaeth broffesiynol (gweler ein hymateb [uchod](#))
- Galluogi modelau hyfforddiant a gweithio amgen sy'n addas ar gyfer amrywiaeth ehangach o ymgeiswyr a hyfforddeion
- Ehangu'r broses ymgynghori er mwyn cynnwys mwy o randdeiliaid a phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig
- Annog a galluogi diwylliant amrywiol drwy sicrhau bod cymysgedd da o bobl sydd wedi'u hyfforddi ac wedi'u cyflogi'n gymdeithion nyrsio ac sydd wedi'u cefnogi gan arweinyddiaeth gadarn.

Ein hymateb

Mae nifer o'r themâu hyn yn adlewyrchu sylwadau yr ymdriniwyd â nhw mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad. Rydym wedi rhoi dolenni uchod i'r adrannau perthnasol.

Roedd rhai o'r sylwadau yn ymwneud â galluogi diwylliant amrywiol o fewn y proffesiwn cymdeithion nyrsio. Er enghraifft, drwy sicrhau bod cymysgedd da o bobl wedi'u hyfforddi ac wedi'u cyflogi, bod modelau hyfforddiant amgen ar gael ac nad oedd prosesau recriwtio yn rhoi pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig o dan anfantais.

Ni allwn ddylanwadu ar gyflogwyr, ond mae ein *Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth* yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg cymeradwy wneud y canlynol:

- sicrhau bod y diwylliant dysgu yn deg, yn meithrin cydberthnasau da rhwng unigolion a grwpiau amrywiol, ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol (G1.10)
- sicrhau bod anghenion amrywiol pob myfyriwr cael eu parchu a'u hystyried, gyda chymorth ac addasiadau rhesymol (G3.11)
- sicrhau y caiff myfyrwyr eu diogelu rhag gwahaniaethu (G3.12)

Fel y nodwyd [uchod](#) mae ein safonau addysg a hyfforddiant wedi cael eu datblygu i fod yn gymwys i amrywiaeth o fodelau hyfforddiant. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, rydym hefyd wedi diwygio ein gofynion ynglŷn â statws ychwanegol (gweler [uchod](#)) er mwyn darparu'n benodol ar gyfer modelau hyfforddiant amgen.

Yn olaf, gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau am y broses ymgynghori. Fel rhan o'r ymgynghoriad, ymgysylltwyd â rhieni plant ifanc, pobl ifanc a phobl ag anableddau dysgu er mwyn asesu effaith ein cynigion ar y grwpiau hyn o bobl.

Camau nesaf

Rydym wedi defnyddio canfyddiadau'r ymgynghoriad i ddiweddarau'r safonau i gymdeithion nyrsio. Cyflwynwyd fersiwn derfynol o'r safonau hyn i Gyngor yr NMC ei

chymeradwyo ar 26 Medi 2018. Yn dilyn y Cyngor, caiff y safonau diwygiedig a'r adroddiad hwn eu cyhoeddi ar wefan yr NMC.